------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Ionawr 2020

Amser: 09.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

---

**Rhag-gyfarfod preifat (09.45-10.00)**

Trafodaeth gyda'r Tîm Ymchwil ynghylch craffu ar y Gyllideb

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

**2.1 Rhagor o wybodaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am drafodoaethau CLlLC ynghylch trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.**

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-01-20(P1) Llythyr gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**2.2 Llythyr gan y Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR) ynglŷn â'r adroddiad ar Fynediad at Fancio**

(Tudalennau 3 - 4)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-01-20(P2) Llythyr gan y Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR) ynglŷn â'r adroddiad ar Fynediad at Fancio (Saesneg yn unig)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**2.3 Gohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynglŷn â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21**

(Tudalennau 5 - 23)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-01-20(P3) Gohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

## 3 Craffu ar y gyllideb gyda Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(10.00-11.30) (Tudalennau 24 - 80)

Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Lee Waters AC, Diprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd

Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp, SAUDGO

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-01-20(P4) Papur Briffio

EIS(5)-01-20(P5) Tystiolaeth gan Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

**Egwyl**

(11.30-11.40)

## 5 Drafftio Adroddiad ar y Gyllideb

(11.40-11.55)

## 6 Adroddiad drafft: Caffael cyhoeddus yn yr economi sylfaenol

(11.55-12.10) (Tudalennau 81 - 123)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-01-20(P6) Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@cynulliad.cymru

17 Rhagfyr 2019

Annwyl Russell,

Wrth imi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2019, cytunais i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am drafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r diwydiant mewn perthynas â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

Mae'r mater hwn yn un sydd wedi'i ddatganoli o dan Ddeddf Cymru 2017. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar drwyddedu yn gymwys i Gymru ac i Loegr ac mae'n dyddio'n ôl i 1847 a 1976. Mae dyfodiad y rhyngrwyd, ffonau clyfar a datblygiadau technolegol eraill yn golygu nad yw'r ddeddfwriaeth a'r drefn drwyddedu bellach yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat yn gweithio, ac nad ydynt ychwaith yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio dyfeisiau modern eraill.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus'. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar bedwar cynnig:

1. creu Safonau Cenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod safonau tacsis a cherbydau hurio preifat yn amrywio ar draws 22 awdurdod lleol Cymru
2. estyn pwerau gorfodi er mwyn caniatáu i swyddogion yr awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn unrhyw dacsi/gerbyd hurio preifat sy'n gweithio yn eu hardal
3. sefydlu protocolau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu teithwyr
4. y posibilrwydd o ailgyfeirio'r holl swyddogaethau trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat oddi wrth yr awdurdodau lleol a'u rhoi i Gyd-awdurdod Trafnidiaeth.

Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod cryn gytundeb ynglŷn â chynigion 1-3, ond roedd rhywfaint o gonsensws hefyd nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell o ran diwygio'r drefn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat ac o ran mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant a'r rheoleiddwyr.

O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC ar gynigion i sicrhau bod y drefn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru yn un addas at y diben.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â chynigion i ddiwygio deddfwriaeth, maent hefyd yn ystyried camau heblaw am ddeddfwriaeth y bydd modd eu cyflwyno'n weddol gyflym er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau presennol.

Byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a chynrychiolwyr y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat, wrth inni fynd ati i ddatblygu'r cynigion hyn.

Dyma rai o'r meysydd gwaith y bwriedir eu hystyried:

- datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch
- darparu hyfforddiant ar gyfer gyrwyr
- rhwyddineb mynediad i’r cerbydau ar gyfer teithwyr ag anableddau
- effaith cerbydau trwyddedig ar yr amgylchedd
- problemau sy'n gysylltiedig â hurio ar draws ffiniau
- gwella pwerau gorfodi a rhannu gwybodaeth yn well
- gwella profiadau cwsmeriaid.

Ein nod yw diweddaru'r drefn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat er mwyn creu un safon gyson ar draws Cymru a fydd yn hyrwyddo diogelwch, yn cyfrannu at amgylchedd glanach, yn gwella profiadau cwsmeriaid ac yn cynnig mynediad i bawb.

Er mwyn sicrhau na fydd ein newidiadau yn peri anawsterau anfwriadol i wasanaethau ar draws ffiniau Cymru a Lloegr, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod trefniadau'n gydnaws â'i gilydd pryd bynnag y bo modd.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

PSR Payment Systems Regulator

Russell George AM
Chair of the Economy Infrastructure and Skills Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

11 December 2019

Dear Chair

I am writing to you in response to the Committee's Access to Banking report published in October. I would like to take this opportunity to thank the Committee for the opportunity to present both written and oral evidence during the inquiry.

The report rightly recognises the complexities involved in maintaining appropriate access to cash, and provides helpful and additional insight, and a clearer picture of the situation in Wales.

As I said to the Committee on the 27 June, we are committed to ensuring that everyone has a good choice of how to make payments in ways that work for them, and we see cash continuing to play an important role for the foreseeable future. I have set out a summary of our work in line the Committee recommendations.

## Joint Authorities Cash Strategy (JACS) Group[1]

Finding long-term solutions requires government and other regulators to work together with industry. We are very pleased to be working collaboratively with other authorities as a member of the Treasury established Joint Authorities Cash Strategy (JACS) Group to help ensure a coordinated and aligned approach to our initiatives, to deliver a sustainable end-to-end cash infrastructure. The JACS Group is also supporting coordination between our work and industry initiatives in this area. The Group's members continue to meet with key stakeholders and plan to publish an update in due course. We note that the Welsh Government has accepted the Committee's recommendation and plans to engage with JACS Group members. We have written to the Minister offering to help with anything specifically relating to our work in this area.

## ATM network[2]

There are lots of ways people can access cash, but most people today prefer to use ATMs. As people use cash less and less, we expect the number of free-to-use (FTU) ATMs to decrease over time. However, it is important that, as this happens, people's ability to access cash is protected where it is needed.

As the regulator of LINK, the operator of the UK's largest ATM network, the PSR has been working hard to make sure that the ATM network continues to meet people's cash access needs. Last year we issued Specific Direction 8, which holds LINK to account for the public commitments it made in January 2018 to ensure that there is a broad geographic spread of FTU ATMs.

This direction required LINK to put a range of policies and measures in place to meet that commitment. LINK subsequently published the Protected ATM policy, which includes measures to maintain free ATMs more than 1km from their nearest free ATM and to replace these where they have closed and no adequate alternative is

[1] Relevant to recommendations 1 and 6
[2] Relevant to recommendations 2 and 7

PSR

available. LINK's current policy considers a Post Office branch that is open five days a week to be a suitable alternative.

To ensure that it is working as well as it can, we are currently reviewing this direction. We plan to publish the outcome of our review in early 2020.

## Community engagement and new initiatives[3]

The payments landscape is rapidly changing, as is people's need for cash. It is also affected by a wide range of factors including social deprivation, geographic location, and digital inclusion. We have been actively considering how these needs can best be understood and tracked over time so we can design solutions that work for everyone.

Strong community engagement must be at the heart of reforms to the cash system. We were therefore pleased to see that LINK has acknowledged this and launched a scheme allowing local communities to apply for an ATM in their area[4]. We understand that LINK has already received a large number of requests and is reaching out to these communities to better understand their access issues and how they can be resolved.

Alongside this, UK Finance will launch the payment industry's Community Access to Cash Initiative in Spring 2020. This will provide grants to local communities for non-ATM access solutions[5].

These are encouraging first steps, but we would like to see them go further. A comprehensive community engagement scheme allowing local communities to raise problems with cash, applied throughout the UK, could deliver real benefits in understanding changing needs and finding local solutions to meet them.

We are actively monitoring these new local community initiatives to learn how people's cash access needs are changing, and whether these initiatives are finding ways to ensure those needs are met. In particular we want to see whether innovative alternatives to ATMs may meet local community needs. That may include Post Offices, but could also include schemes like cashback at retailers, as well as new services that link consumers with merchants who can provide cashback. As we work towards a longer term sustainable model for cash access, the role of communities, active engagement with local consumers and a targeted approach to meeting their needs will remain critical.

I hope you and the Committee find this update on our work useful. We look forward to continuing to engage with the Committee and the Welsh Government, and I would be happy to keep the Committee updated on the work in this vital area.

Yours sincerely

Chris Hemsley
Managing Director

---

[3] Relevant to recommendations 3, 4, 7, 8, 11 and 14
[4] https://www.link.co.uk/consumers/request-access-to-cash/
[5] https://www.ukfinance.org.uk/press/press-releases/uk-banking-and-finance-industry-update-local-access-cash

Eitem 2.3

Briff i Aelodau'r Cynulliad

# Sut mae cyllideb ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Rhagfyr 2019



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Crynodeb

Cyllideb Llywodraeth Cymru yw'r un penderfyniad mwyaf (neu set o benderfyniadau) sy'n cael ei wneud gan gorff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Yn ogystal â phenderfynu sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu, mae'r broses gyllidebol a phenderfyniadau penodol yn anfon arwyddion pwysig am flaenoriaethau i'n holl wasanaethau cyhoeddus ac yn dangos i ba raddau'r mae'r blaenoriaethau hynny'n symud yn unol â'r dyheadau a osodwyd gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan fod y gyllideb yn set o benderfyniadau sydd mor bwysig i ddyfodol Cymru, rwy'n monitro ac asesu'r gyllideb ddrafft bob blwyddyn ac yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Wrth fonitro'r gyllideb, eleni rwy'n canolbwyntio ar:

DDATGARBONEIDDIO - Sut mae Llywodraeth Cymru'n cwrdd â'r Argyfwng Hinsawdd drwy benderfyniadau a dyraniadau'r gyllideb?

ATAL - Sut mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r diffiniad o atal i sefydlu ymagweddau ataliol drwy benderfyniadau a dyraniadau'r gyllideb?

Drwy ymgysylltu â staff Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n glir bod y pynciau hyn o ddiddordeb i Aelodau o wahanol Bwyllgorau. Mae'r briff hwn felly'n rhoi trosolwg o'r canlynol:

- Fy nisgwyliadau o'r modd y dylai'r gyllideb fod yn newid mewn perthynas â datgarboneiddio ac atal;
- Cynnydd Llywodraeth Cymru, yn cynnwys asesiad lefel uchel o ymrwymiadau yn naratif y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr;
- Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu harchwilio ymhellach mewn perthynas â datgarboneiddio ac atal, fel rhan o graffu ar y gyllideb.

SOPHIE HOWE
**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**



# Cynnwys


01 1) Buddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd

06 2) Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol

11 3) Asesu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y gyllideb


14 4) Cymryd camau pellach tuag at ymagwedd tymor hir


Mae'r adrannau hyn yn seiliedig ar argymhellion a gynhwyswyd yn y cyngor i Lywodraeth Cymru ar ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebol, a gyhoeddais yn Rhagfyr 2018.

Gellir cyrchu hwn ar: https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/12/2018-11-29-FGC-Budget-Recommendations-CYM.pdf

**Mae sawl cyfeiriad at argymhellion yn y briff:**

- Bydd argymhellion gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ymddangos mewn oren.
- Bydd argymhellion gan Bwyllgorau y Cynulliad, sydd yn cefnogi ein argymhellion i'w gael mewn glas.



# Adran 1

## Buddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd

Yn seiliedig ar fy ngwaith craffu ar y gyllideb llynedd, roedd fy nghyngor yn cynnwys dau argymhelliad i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod buddsoddi mewn datgarboneiddio'n adlewyrchu uchelgais:

> Argymhelliad: Mae Llywodraeth Cymru'n mynegi'n glir sut y bydd y camau a osodir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn cael ei ariannu er mwyn i ni gwrdd â'n targedau gostwng allyriadau statudol;

> Argymhelliad: Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried ac yn gosod y lefel buddsoddi traws Lywodraeth sydd ei angen i gwrdd â'n targedau, yn arbennig mewn perthynas â: i. Trafnidiaeth; ii Tai/adeiladau; iii. Y trawsnewid i Gymru garbon isel.

Ar Fawrth 21, 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cynllun Carbon Isel cyntaf – "Ffyniant i Bawb".

Ar 29 Ebrill cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ei bod yn Argyfwng ar yr Hinsawdd.

Gellir cyrchu'r cynllun hwn ar: https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/06/Cynllun-10-Pwynt-i-Ariannu-Argyfwng-Hinsawdd-Cymru-Adroddiad-Manwl.pdf

Ym Mehefin cyhoeddais Gynllun Deg Pwynt i gyllido Argyfwng Hinsawdd Cymru sy'n cynnwys cynigion ar gyfer cynyddu buddsoddi mewn meysydd allweddol yn cynnwys trafnidiaeth gynaliadwy, adeiladau a chartrefi carbon isel/sero, ynni adnewyddadwy a datrysiadau seiliedig ar dir/natur.

Er ei bod yn anodd cyfrifo faint yn union o gyllid sydd ei angen, gwyddom y bydd ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gofyn, yn gyffredinol, am lefel llawer uwch o fuddsoddiad.

Mae fy Nghynllun yn argymell cyfanswm o £991miliwn o ddyraniad i gynorthwyo datgarboneiddio yng nghyllideb nesaf Llywodraeth Cymru (2020-21) sydd yn unol ag amcangyfrif Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd o ryw £30 biliwn dros y cyfnod i fyny at 2050 (neu 1-2% o Gynnyrch Domestig Gros).


Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Papur Gwyn - Adroddiad Manwl

CYNLLUN 10 PWYNT I ARIANNU ARGYFWNG HINSAWDD CYMRU

Mehefin 2019

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

"Ar gyfer ymagwedd fwy strwythurol a thymor hwy, mae'r Cynllun Deg Pwynt a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol [...] yn gosod ymagwedd i'w hystyried a'i defnyddio fel canllaw..."

Extinction Rebellion Cymru - ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Dros y 3 mis diwethaf, rwyf wedi gofyn am wybodaeth gan Weinidogion, ac ymatebion manwl i'r cwestiynau canlynol:

1. Gan adeiladu ar y camau a nodir yn y Cynllun Cyflenwi Carbon Isel, beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddiad datgarboneiddio mewn perthynas â'ch portffolio a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â refeniw a gwariant cyfalaf?

2. Beth yw eich asesiad o'r dyraniadau a nodwyd yn fy Nghynllun 10 Pwynt, ac os ydych chi'n anghytuno â'r awgrymiadau beth yw eich cynigion?

3. Sut ydych chi'n asesu faint rydych chi'n ei wario yn gyffredinol ar gamau datgarboneiddio, ac a oes gennych chi ddull ar gyfer dosbarthu gwariant datgarboneiddio?

4. Ar sail y pwyntiau uchod, pa newidiadau penodol fydd yng nghyllideb ddrafft 2020-21?

Rwyf wedi cynnal nifer o sgyrsiau gyda Gweinidogion a swyddogion: Tra bu ymgysylltu'n gadarnhaol, mae trafodaethau ac ymatebion hyd yn hyn wedi bod yn brin mewn manylder, gan gyfeirio at bocedi o gyllid ar gyfer gweithgareddau ond heb dystiolaeth o newid systemig na thrawsffurfiol.

O'r sgyrsiau hyn mae canfyddiadau'n cynnwys:

- Ymddengys bod diffyg cysylltiad rhwng ymrwymiadau polisi a wnaethpwyd (er enghraifft yn "Carbon Isel Cymru") a dyraniadau cyllideb.
- Ymddengys nad yw'r datganiad am "argyfwng" hinsawdd yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau am y broses gyllidebol a dyraniadau, sydd yn aml yn cyfeirio at heriau a rhwystrau.
- Ymddengys nad oes tystiolaeth bod gan Lywodraeth Cymru broses glir i ddosbarthu neu asesu faint y maent ar hyn o bryd yn ei wario (neu angen ei wario) ar gamau datgarboneiddio i gyflawni'r cyllidebau neu dargedau carbon statudol.
- Nid oes ymagwedd gyson tuag at ymgymryd ag asesiadau effaith carbon ar gyfer prosiectau seilwaith mawr; nid yw'n glir sut mae effaith carbon yn trwytho penderfyniadau (ar brosiectau neu gyllid) ac nid oes coladu canolog o Asesiadau Effaith Carbon ar draws y Llywodraeth.
- Er enghraifft, er bod 'Project Pipeline 2019' Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n crybwyll buddsoddiad ychwanegol o £14.5 miliwn ar gyfer teithio llesol, nid yw'n glir sut mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n gyffredinol yn rhoi blaenoriaeth i fesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gyda 64% o gyllideb trafnidiaeth Cymru ar hyn o bryd yn cael ei dyrannu i adeiladu ffyrdd.

# Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

Rwyf wedi herio'r Llywodraeth ar y modd y maent yn deall i ba raddau mae penderfyniadau'n 'datgarboneiddio' h.y. deall effaith carbon cyfredol sy'n deillio o benderfyniadau buddsoddi, ac effaith datgarboneiddio a photensial penderfyniadau'r dyfodol. Mae'n glir nad oes gan y Llywodraeth ymagwedd gyson tuag at wneud hyn ar hyn o bryd, ac maen nhw wedi gofyn i mi ddarparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn.

Rwyf wedi canolbwyntio ar drafnidiaeth fel maes allweddol ble gall Llywodraeth Cymru wneud cynnydd, yn enwedig am fod cynnydd mewn lleihau allyriadau'r sector drafnidiaeth yn llai na'n targed. Yn ystod trafodaethau gyda'r Llywodraeth fe wnaethon ni amlygu sawl her a chyfyngiad yn y maes hwn, yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o arian cyfalaf eisoes wedi cael ei glustnodi ar gyfer 2020/21, nad yw cyfrifoldeb am isadeiledd y rheilffyrdd wedi'i ddatganoli i Gymru, ac mai cyfyng yw'r sgôp ar gyfer gweld dyraniadau cyllidon newid yn sylweddol.  Ymddengys yn glir bod ffocws presennol y Llywodraeth ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth ar y ffyrdd, yn hytrach nag ar y potensial ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol er mwyn cyflawni symudiad sylweddol mewn arferion.

Cefnogir ein canfyddiadau gan argymhellion Pwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig 'Adroddiad Blynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran newid hinsawdd, 2019-20' ( a gyhoeddwyd 18 Rhagfyr) sy'n cynnwys:

Argymhelliad 6: Dylai cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru esbonio a dangos yn glir sut y bydd dynodiadau cyllido'n cefnogi'r flaenoriaeth i ddatgarboneiddio.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad o gostau, manteision ac effaith datgarboneiddio ymhob polisi a chynnig a gynhwysir yn fersiwn nesaf ei chynllun datgarboneiddio.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno mecanwaith, fel asesiad effaith carbon, i adrodd i'r Senedd am unrhyw benderfyniadau polisi a fydd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn allyriadau carbon.

Dolen yr adroddiad:
https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12934/cr-ld12934%20-w.pdf

# Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

**Adborth ar y Gyllideb Ddrafft**

Oddi mewn i'r Gyllideb Ddrafft, rwy'n croesawu'r cynnydd o £59 miliwn (37%) mewn cyfanswm gwariant ar deithio cynaliadwy, wrth i £219 miliwn gael ei glustnodi yn 2020/21 ar gyfer prisiau tocynnau gostyngedig, cefnogaeth i fysiau, cardiau clyfar, cynlluniau teithio ar bris gostyngol i ieuenctid, blaenoriaethau llywodraeth leol a theithio cynaliadwy a llesol. Bydd hyn yn annog datgarboneiddio trafnidiaeth a lefelau uwch o weithgarwch corfforol.

Rwyf hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad bod £140 miliwn ar gael mewn cyllid cyfalaf newydd ar gyfer yr hinsawdd a'r amgylchedd – mae hyn yn mynd â'r cyfanswm gwariant cyfalaf sy'n benodol ar yr hinsawdd a'r amgylchedd dros y trothwy 5%. Ochr yn ochr â buddsoddi £30 miliwn mewn isadeiledd i gerbydau trydan, cerbydau allyriadau isel ac mewn systemau metro newydd (i ogledd Cymru), ynghyd `â pharhau i gyllido'r rhyddfraint rheilffyrdd newydd, dengys hyn ymrwymiad y Llywodraeth i fuddsoddi mewn atebion rhagweithiol i'r argyfwng hinsawdd.

Er fy mod i'n croesawu'r cynnydd mewn buddsoddi cyfalaf mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus ac isadeiledd i gerbydau trydan, o £80 miliwn, ymddengys bod hwn wedi cael ei wrthbwyso gan gynnydd sylweddol cyfatebol mewn buddsoddi cyfalaf mewn heolydd newydd. Yn hynny o beth, mae'r gyfran o gyfalaf sy'n cael ei gwario ar deithio llesol a chyhoeddus yn dal ychydig islaw'r lefel o 60% a argymhellir yn fy Nghynllun 10 Pwynt.

Mae'r pecyn £140 miliwn hefyd yn cynnwys cyllido cyfalaf o £25 miliwn i ymestyn y Rhaglen Dai Arloesol, £8.2 miliwn ar gyfer prosiect dai carbon niwtral yng Ngholeg y Cymoedd a chyllid i fynd i'r afael â'n hargyfwng natur, er bod y dynodiadau hyn yn brin o'r hyn a argymhellwyd gennyf yn fy Nghynllun. Serch hynny, er bod y gyllideb wedi targedu buddsoddiad i gyfeiriad mesurau "y mae tystiolaeth bresennol yn cefnogi fel rhai ble gall Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf i ddarparu ein cyllideb garbon gyntaf" erys y ffaith nad oes dim asesiad holistig o effaith garbon net y gyllideb, ac ni ddarperir tystiolaeth fanwl i ddangos sut y maent wedi blaenoriaethu penderfyniadau gwario yn unol â hynny.

Ystyr hyn yw na all y Llywodraeth ddweud wrthym a yw'r ffordd y maen nhw'n gwario'u harian yn arwain at gynnydd ynteu leihad mewn allyriadau carbon. O ganlyniad, er gwaethaf ymdrechion i fuddsoddi mewn teithio cynaliadwy, rydym ni'n bryderus fod buddsoddiadau cyfalaf eraill y Llywodraeth, fel mewn heolydd, yn tanseilio'r cynnydd sy'n digwydd mewn lleihau carbon.

**Rwy'n galw ar y Llywodraeth, o hyn ymlaen, i ddadansoddi'n fforensig bob agwedd ar ei gwariant, yn enwedig gwariant cyfalaf, yn nhelerau effaith carbon, a chyhoeddi manylion ar effaith gyffredinol carbon yn eu cyllideb.**

# Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o graffu ar gyllideb ddrafft 2020/21

**1) Ymagwedd gyffredinol tuag at fuddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd**

- Beth yw'r newidiadau allweddol yng nghyllideb ddrafft 2020-21 sy'n adlewyrchu'r datganiad am yr argyfwng hinsawdd?
- Pa ddyraniadau allweddol yn y gyllideb sy'n dangos fod Llywodraeth Cymru'n ystyried o ddifrif yr angen i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd ar y raddfa a'r cyflymder sydd ei angen?

**2) Deall effaith carbon sy'n deillio o ddyraniadau'r gyllideb**

- Sut ydych chi'n asesu gwariant cyfredol ar ddatgarboneiddio a pha ddyraniadau sy'n ofynnol dros y 5,10, 20 mlynedd nesaf i gyflawni ein targedau statudol
- Sut ydych chi'n asesu effaith carbon y penderfyniadau ar fuddsoddiadau mawr i sicrhau fod gwariant cyfalaf yn unol â thargedau lleihau allyriadau?

**3) Datgarboneiddio trafnidiaeth**

- A fydd dyraniadau cyllidebol cyfredol yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed ar gyfer allyriadau'r sector drafnidiaeth pan nad ydym yn cyrraedd y targed ar hyn o bryd?
- Sut ydych chi'n asesu effaith carbon y penderfyniadau ar fuddsoddiadau mawr i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn unol â thargedau lleihau allyriadau.
- A yw gwario 63% o'r gyllideb cyfalaf  trafnidiaeth ar ffyrdd yn cyd-fynd â'r datganiad ar yr argyfwng hinsawdd?

**4) Datgarboneiddio tai**

- Ers i'r adroddiad "Datgarboneiddio Cartrefi" gael ei gyhoeddi yng Ngorffennaf pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud i sicrhau cyllid ar gyfer ôl-osod cartrefi Cymru a pha ymrwymiadau sy'n bodoli yng nghyllideb 2020-21?

*  Bu gostyngiad o 3% yn allyriadau'r sector trafnidiaeth ers 1990; y targedau yw gostyngiad o 14% erbyn 2020 a gostyngiad o 43% erbyn 2030 o'i gymharu â gwaelodlin 1990.

# Adran 2



## Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol

Mae atal yn un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n bwysig fod symudiad mewn buddsoddiad o ddulliau adweithiol i rhai ataliol, i atal problemau rhag digwydd yn ogystal â'u hatal rhag mynd yn waeth.

Llynedd croesawais y diffiniad o atal a gynhwysir yn naratif y gyllideb.

Atal yw gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r deilliannau gorau posib, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoliadau i'w cyfrannu. Wrth dorri'r cyfan i lawr i bedwar lefel, gall pob lefel leihau'r galw ar gyfer y nesaf:

- Atal cynradd (AC) – adeiladu gwytnwch ¬– creu'r amodau ble nad yw problemau'n codi yn y dyfodol, Dull cyffredinol o fynd ati.
- Atal eilaidd (AE) – Targedu gweithredu i gyfeiriad meysydd ble mae risg uchel yn bodoli ble gallai problem ddigwydd. Dull a dargedwyd, sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol*.
- Atal trydyddol (AT) – Ymyrryd unwaith y mae problem yn bodoli, i'w hatal rhag gwaethygu ac i'w rhwystro rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull ymyrrol o fynd ati.
- Gwario aciwt (GA) – Gwario, sy'n gweithredu er mwyn rheoli effaith sefyllfa negyddol iawn, ond sy'n gwneud fawr ddim neu ddim oll i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull adferol o fynd ati

* cyffredinoliaeth gynyddol yw'r penderfyniad i ddarparu cefnogaeth i bawb, gan roi llais a buddiant breintiedig i bawb a phopeth ynddo, ond gan gydnabod y bydd angen mwy o gefnogaeth gan y bobl neu'r meysydd hynny sydd ag anghenion uwch.

*Ffynhonnell: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 Cynigion manwl*

# Adran 2



## Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol

Fodd bynnag, teimlais mai cyfyngedig iawn oedd cymhwysiad y diffiniad llynedd, felly nodais bedwar argymhelliad ar atal yn y cyngor a gyhoeddais ar gyfer y Llywodraeth yn Rhagfyr 2018.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso'r diffiniad o atal ym mhob gwariant, mewn dull systematig a chyhyrog, gan ddiffinio'n glir yr hyn y maent yn ceisio'i atal a dangos gweledigaeth glir drwy wario ar weithredu ar sail tystiolaeth ar draws y Llywodraeth. Dylent ystyried gweithio gyda sefydliadau ag arbenigedd yn y maes i sicrhau bod eu hymagwedd yn effeithiol.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i wasanaethau cyhoeddus eraill (yn arbennig llywodraeth leol a byrddau iechyd) i gymhwyso'r diffiniad o atal i'w gwariant, i adnabod cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddi mewn atal sylfaenol ac eilaidd.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth yw gwell cytbwysedd mewn gwariant mewn perthynas ag atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

Argymhelliad: Gan gadw mewn golwg argymhellion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cymhwyso'r camau a osodwyd gan adroddiad Comisiwn Polisi Iechyd Meddwl 'Investing in a Resilient Generation: Keys to a Mentally Prosperous Nation' yn fewnol, yn arbennig mewn perthynas â pha ran o'r Llywodraeth sy'n arwain yn strategol wrth sicrhau bod yna ymagwedd system gyfan tuag at atal.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi gwneud argymhellion perthnasol yn eu hadroddiad ar gyllideb y llynedd:

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gall unrhyw gyllid ychwanegol yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd gael eu targedu tuag at atal, a dylent ystyried sefydlu trefniadau partneriaeth o amgylch unrhyw gyllid o'r fath.

Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cadw llygad barcud yn gyson ar y diffiniad o wariant ataliol, yn cynnwys ymgysylltiad egnïol â rhanddeiliaid a'r Pwyllgor hwn.

Argymhelliad 15: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i ymagwedd integredig ar draws Llywodraeth parthed gwariant ataliol, trawsadrannol, ac aml-flwyddyn.

# Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

Prin yw'r dystiolaeth fod y Llywodraeth wedi ceisio cymhwyso'r diffiniad o atal ar draws gwariant mewn modd systematig a chyhyrog.

Mae naratif drafft y gyllideb yn cynnwys mwy o gyfeiriadau at atal na chyllidebau blaenorol, yn enwedig mewn perthynas â buddsoddi mewn rhaglenni sy'n cynyddu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael â thlodi.

Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfeiriadau sydd yn y naratif at y mathau o atal sydd yn cael eu hariannu - rwy'n credu bod hwn yn gyfle a gollwyd i adrannau'r Llywodraeth ar y cyd i ddeall yr hyn y maent yn ceisio ei atal a'r cydbwysedd gorau o wariant i gyflawni hyn.


Mewn cydnabyddiaeth o raddfa'r her o ymgorffori ymagweddau ataliol, cynghorais y Llywodraeth i weithio gyda sefydliadau ag arbenigedd yn y maes hwn – nid ydynt wedi gwneud hynny. Rwyf wedi darparu adnoddau i Gyllid Cymdeithasol i'w galluogi i weithio gyda'r Llywodraeth, yn arbennig mewn perthynas ag archwilio prosiect peilot Bond Effaith Cymdeithasol (fel y caiff ei nodi ar dud 26 y gyllideb).

"Mae sefydliadau GIG Cymru'n cefnogi ymagwedd a fydd yn amddiffyn cyllid ymhellach ar gyfer mesurau ataliol, sy'n cydnabod pwysigrwydd gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy."

Cydffederasiwn y GIG
- Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Prin yw'r dystiolaeth fod y Llywodraeth yn ystyried beth yw natur gwell cydbwysedd gwariant mewn perthynas ag atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n diffinio'n glir yr hyn y maent yn ceisio'i atal gan ddangos gweledigaeth glir drwy wario ar gamau gweithredu ar sail tystiolaeth.

Rwyf wedi ysgrifennu ddwywaith at Weinidogion, ac wedi cwrdd â nifer o Weinidogion, gan ofyn nifer o gwestiynau penodol am y modd y maent wedi cymhwyso'r diffiniad o atal i'w portffolios ac mae'r atebion a dderbyniais wedi bod yn enghreifftiau cyffredinol o'r modd y mae meysydd polisi'n adlewyrchu'r Ddeddf LlCD.



# Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

"Fodd bynnag, mae'n anodd dadgyfuno gwariant ataliol (oherwydd nad oes eto ddiffiniad o lefel gwasanaeth cyffredin, a gellir ymarfer ymyrraeth gynnar ar draws y sbectrwm angen); ond rydym yn cytuno bod costau ychwanegol/caledi yn debygol iawn o fod wedi arwain at doriadau mewn termau real mewn gwariant ataliol yn cynnwys y meysydd hynny a restrir yn nogfen y Pwyllgor'.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot - ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Mae yna beth tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru'n gofyn i wasanaethau cyhoeddus eraill i gymhwyso'r diffiniad i'w gwariant - rwyf wedi gweld enghreifftiau mewn perthynas â'r GIG a Thai.

Fodd bynnag, mae yna lawer mwy o gyfle i'r diffiniad gael ei ystyried mewn dull ystyrlon ar draws gwasanaethau, gyda Llywodraeth Leol yn fwlch penodol.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru'n ystyried ymagwedd 'llywodraeth gyfan' tuag at atal, sef yr hyn a argymhellais. Mae rhan o'u 'cynllun gwella cyllideb' sy'n ymdrin ag atal yn gadarnhaol, ond yn dibynnu ar y Trysorlys i sbarduno cynnydd – nid yw hon yn ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag ymgorffori ymagweddau ataliol.

## Atal Digartrefedd

Er mwyn deall yn well i ba raddau y mae sgyrsiau'n digwydd ar draws y Llywodraeth mewn perthynas ag atal rwyf wedi ffocysu ar atal digartrefedd.

Tra mod i wedi darganfod fod sgyrsiau'n digwydd ar draws y Llywodraeth nid yw hyn yn glir yn naratif y gyllideb, ac mae'r sgyrsiau hyn i raddau helaeth yn ffocysu ar atal trydyddol gyda dim ond ychydig o ystyriaeth yn cael ei roi i gyfleoedd cydweithredol ar gyfer atal sylfaenol ac eilaidd. Credaf fod yna gyfleoedd pellach ar gyfer alinio cyllid ac ystyried a yw'n cyflawni'r canlyniadau gorau yn nhermau atal digartrefedd.  Rwy'n gweithio'n glos gyda'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a gadeirir gan Jon Sparkes o Crisis, ar hyn.

Gellir gweld gwybodaeth am waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar https://llyw.cymru/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd?_ga=2.96013468.1885231479.1576761731-2094061263.1576512191

# Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o graffu ar gyllideb ddrafft 2020/21

"Roedd yn siomedig bod Ysgrifennydd y Cabinet pan ofynnwyd iddo am enghreifftiau o atal sylfaenol, eilaidd neu drydyddol o fewn ei gyllideb, wedi methu rhoi un enghraifft."

Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol, craffu ar gyllideb ddrafft 2019-20

**1) Ymrwymiad cyffredinol i ymgorffori atal (ffocws ar ganlyniadau)**

- Pa rôl sy'n cael ei chwarae gan eich adran yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth gyffredinol o symud tuag at ymagweddau ataliol, a pha gyfraniad ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?
- Sut y gwyddoch eich bod yn buddsoddi yn y rhaglenni a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf?

**2) Deall cydbwysedd gwariant mewn perthynas ag atal**

- Sut rydych chi wedi defnyddio'r diffiniad o atal: pa asesiad ydych wedi ei wneud o'r gyfran o'ch buddsoddiad sydd mewn atal sylfaenol, eilaidd, trydyddol, neu yng ngofod aciwt eich buddsoddiad?
- Ydych chi wedi gwneud newidiadau i'r modd yr ydych yn buddsoddi ar gyfer cyllideb 2020-21?

**3) Annog cyrff eraill i ddefnyddio'r diffiniad o atal**

- Sut rydych chi'n annog cyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio'r diffiniad o atal?

**4) Ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag at atal**

- Sut ydych chi'n sicrhau y gellir mabwysiadu ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag at atal, gydag arweiniad clir ac atebolrwydd am gynnydd?

# Adran 3

## Asesu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y gyllideb

Yn fy nghyngor i'r Llywodraeth pwysleisiais fod angen iddi fod yn haws i randdeiliaid ddeall beth sy'n newid mewn perthynas â'r gyllideb, a deall beth yw nodweddion newidiadau syml a newidiadau mwy trawsffurfiol.


Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda fy swyddfa i ddatblygu 'Diogelwyr Taith' i ddisgrifio beth yw ystyr 'da' yng nghyd-destun y modd y mae'r broses gyllidebol yn esblygu dros o leiaf y degawd nesaf.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n well sut mae'r chwe maes blaenoriaeth yn sbarduno gwahanol benderfyniadau drwy ystyried tueddiadau a senarios y dyfodol, gan gymhwyso'n holistig y diffiniad o atal a defnyddio cyfleoedd i wneud buddsoddiadau cydweithredol ar draws y system.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi gwneud argymhellion tebyg:

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut fydd y 'Diogelwr Taith' yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i gyflymu eu gweithrediad ac integreiddiad o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn argymell bod y defnydd ohono'n cael ei adlewyrchu yng Nghyllideb ddrafft 2020-21.

Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n parhau i ddangos sut mae'n gwneud y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o benderfyniadau a wneir yn eu sefydliad drwyddi draw, gan ymgysylltu'r gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 1019-20 8 â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r graddau mwyaf posibl, er mwyn cyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen o fewn Llywodraeth Cymru."




Mae'r diagram yn sylfaen i fy mhrosiect 'Y Gallu i Greu.' Gallwch ddod o hyd i esiamplau ar y gwefan: https://futuregenerations.wales/cy/the-art-of-the-possible/

# Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru


Dewisodd Llywodraeth Cymru wneud y gwaith hwn eu hunain, gyda ffocws ar ymagwedd a fydd yn defnyddio iddynt hwy - gwnaethant fframio hwn fel 'Cynllun Gwella Cyllideb'. Rwy'n falch eu bod wedi cyhoeddi drafft o'r Cynllun hwn fel rhan o gyllideb ddrafft 2020-21

Mae'r Cynllun yn gychwyn defnyddiol ar gyfer deall beth allai natur cynnydd mewn perthynas â'r broses gyllidebol fod, ac rwy'n croesawu'r ffaith ei fod yn edrych yn eang ar draws Trysorlys Cymru. Deallaf fod swyddogion wedi ymgysylltu'n fewnol o fewn y Llywodraeth ar y Cynllun hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut y byddant yn ystyried sylwadau wrth iddynt ymgysylltu'n allanol.

Er bod y Cynllun yn ddechrau da, credaf fod nifer o feysydd lle gellir cryfhau Cynllun Gwella'r Gyllideb i adlewyrchu'n well uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i alluogi rhanddeiliaid i ddeall cynnydd yn well - mae'r rhain yn cynnwys:

**1) Codi lefel uchelgais a gweledigaeth**

I adlewyrchu natur uchelgeisiol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r Cynllun gynnwys camau mwy uchelgeisiol a thrawsnewidiol o fewn ffrâm amser tymor hwy, yn cynnwys ystyriaeth o beth allai nodweddion cyllideb sy'n ymgorffori'r Ddeddf yn llwyr fod.



Gellir gweld Cynllun Gwella Cyllideb Llywodraeth Cymru yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/cynllun-gwellar-gyllideb.pdf

# Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

**2) Galluogi rhanddeiliaid i ddal i gyfrif ganlyniadau gwariant, ac olrhain pa mor drawsffurfiol yw'r newid**

Dylai'r Cynllun alluogi rhanddeiliaid i olrhain y modd y mae penderfyniadau gwariant yn newid yn ogystal ag olrhain y modd y mae'r broses gyllidebol yn newid. Gallai Llywodraeth Cymru ddysgu oddi wrth Gyllid Llesiant Seland Newydd yn hyn o beth: yn gyntaf, mae amcanion llesiant yn cael eu dethol, ac wedyn mae grwpiau traws-lywodraeth yn gwneud cynigion gwariant yn
erbyn yr amcanion hyn (ochr yn ochr ag asesiadau effaith). Mae Llywodraeth Seland Newydd yn dethol cynigion ac wedyn yn cyhoeddi'r modd y mae penderfyniadau gwariant wedi newid fel canlyniad i'r broses hon.

Dolenni i Gyllideb Llesiant Seland Newydd:

- (Cyllideb Mai 2019) https://treasury.govt.nz/sites/default/files/2019-06/b19-wellbeing-budget_1.pdf
- (Canllaw) https://treasury.govt.nz/sites/default/files/2018-12/budget19-guidance.pdf

**3) Ymgorffori ymhellach elfennau allweddol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â'r 5 dull o weithio**

Tra bo'r Cynllun yn ddefnyddiol ar gyfer deall cynnydd, gallai fynd ymhellach wrth adlewyrchu elfennau allweddol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig wrth fframio sut mae'r gyllideb yn galluogi ffocysu ar amcanion llesiant y Llywodraeth, a thalu mwy o sylw i'r pum dull o weithio (yn arbennig 'hirdymor' ac 'atal').

# Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft 2020-21

1. Beth yw lefel eich gweledigaeth a'ch uchelgais gyda'r gwaith hwn? A oes gennych syniad clir o nodweddion cyllideb sy'n ymgorffori'n llwyr y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

2. Sut fydd y Cynllun hwn yn galluogi rhanddeiliaid i ddeall yr hyn sy'n newid o flwyddyn i flwyddyn, yn nhermau proses ac yn nhermau gwariant?

# Adran 4



## Cymryd camau pellach tuag at ymagwedd tymor hir

Yn y cyngor a gyhoeddais ar gyfer y Llywodraeth, fe wneuthum gynnwys dau argymhelliad oedd yn berthnasol i fabwysiad y Llywodraeth o ymagwedd tymor hwy, a fyddai yn ei dro yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill i gynllunio ar gyfer yr hirdymor.

Argymhelliad: Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos sut y maent yn cymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ymateb i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2019.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Adolygiad o Wariant fel cyfle i archwilio dewisiadau ar gyfer ymrwymiadau gwariant aml-flwyddyn i gyrff cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu heriau sylweddol wrth gynllunio cyllideb y flwyddyn hon, oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, cyd-destun gwleidyddol y DU a'r datganiad am Rownd Gwariant un flwyddyn yn hytrach nag Adolygiad o Wariant cyflawn.

Rwy'n gwerthfawrogi bod yr heriau hyn wedi gwneud mabwysiadu ymagwedd tymor hwy yn fwy anodd i'r Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Am y rheswm hwnnw ni fyddaf yn ffocysu ar y maes hwn wrth graffu ar gyllid ddrafft 2020-21.

**Fodd bynnag rwyf yn disgwyl gweld bod peth cynnydd wedi cael ei wneud ar y paratoadau mewnol gofynnol. Byddaf yn parhau i fonitro'r maes hwn gan ganolbwyntio'n benodol ar y modd y mae Llywodraeth Cymru'n ymateb i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU sydd i fod i ddigwydd y flwyddyn nesaf.**

# CYSYLLTIADAU



@futuregencymru

/futuregencymru

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith ewch i'n gwefan...

www.futuregenerations.wales/cy

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Memorandwm ar yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21**

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – 9 Ionawr 2020**

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am y cynigion yng nghyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth, fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21 a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2019. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## 2.0 Y Cyd-destun Strategol

Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, sy'n cyd-fynd â Ffyniant i Bawb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yw'r polisi arweiniol a'r ddogfen strategaeth ar gyfer holl weithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae cynllun 2020-21 yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol sydd wedi cael ei wneud wrth weithredu a gwreiddio elfennau allweddol o'r cynllun, gan gynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, yn enwedig y gymuned fusnes a phartneriaid cymdeithasol.

Bydd Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru, a fydd yn disodli Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, yn pennu'r weledigaeth i ymrymuso pobl Cymru i symud o gwmpas yn fforddiadwy ac yn gyfleus ac mewn ffyrdd sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u hamgylchedd, drwy ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n addas i'r dyfodol. Yn 2020-21 bydd y penderfyniadau cyllido yn hybu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i greu Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru sy'n fwy ffyniannus a Chymru sy'n fwy gwyrdd. Mae'r 100 o bolisïau a chynigion a nodir yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel hefyd wedi dylanwadu ar y buddsoddiad ychwanegol. Bydd ein cynllun tymor hwy yn creu system drafnidiaeth wirioneddol gynaliadwy sy'n amddiffyn ac yn gwella iechyd a llesiant.

Bydd ein Cynllun Cyflogadwyedd i Gymru yn parhau i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd i bobl sy'n barod i weithio a'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae gweithio, boed am dâl neu'n ddi-dâl, yn dda i'n hiechyd a'n llesiant. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen Prentisiaethau flaenllaw er mwyn darparu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oed dros dymor y Cynulliad hwn.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae cynllun 2020-21 hefyd wedi canolbwyntio ar yr wyth maes â blaenoriaeth trawsbynciol, sef y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, sgiliau a chyflogadwyedd, iechyd meddwl gwell, datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth, fel y meysydd lle y gall ein hadnoddau gael yr effaith fwyaf.

## 3.0 Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

Mae Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn darparu cynllun gwariant blwyddyn ar gyfer refeniw a chyfalaf.

Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o'r gwariant refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer gweithgareddau Economi a Thrafnidiaeth. Cyfanswm y gyllideb refeniw ar gyfer 2020-21 yw £540.06m (ac eithrio Gwariant Heb fod yn Arian Parod a Gwariant a

Reolir yn Flynyddol (AME)). Yn gyffredinol, mae cynnydd o £27.681m yn y gyllideb refeniw o'i chymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ac, yn ogystal â hynny, mae newid o £2.4m i'r gyllideb ar gyfer gwariant heb fod yn arian parod a newid o £32.912m i'r gyllideb AME, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod:

| TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Refeniw | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000** |
| **Refeniw** | | | | | |
| Yr Economi | 38,946 | (1,018) | 37,928 | 755 | 38,683 |
| Trafnidiaeth | 314,909 | (3,223) | 311,686 | 16,150 | 327,836 |
| Sgiliau | 165,915 | (3,150) | 162,765 | 10,776 | 173,541 |
| **Is-gyfanswm** | **519,770** | **(7,391)** | **512,379** | **27,681** | **540,060** |
| **Heb Fod yn Arian Parod** | | | | | |
| Yr Economi | 1,309 | 0 | 1,309 | 1,000 | 2,309 |
| Trafnidiaeth | 188,691 | 0 | 188,691 | 0 | 188,691 |
| Sgiliau | 0 | 0 | 0 | 1,400 | 1,400 |
| **Is-gyfanswm** | **190,000** | **0** | **190,000** | **2,400** | **192,400** |
| **CYFANSWM** | **709,770** | **(7,391)** | **702,379** | **30,081** | **732,460** |
| **AME** | | | | | |
| AME | 62,437 | 0 | 62,437 | (32,912) | 29,525 |

Dros y cyfnod 2020-21, cyfanswm y gyllideb gyfalaf yw £785.726m. Dangosir y crynodeb o gyllidebau yn Nhabl 2 isod:

| TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000** | **Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | |
| Yr Economi | 97,134 | 81,652 | 20,862 | 102,514 |
| Trafnidiaeth | 450,683 | 516,452 | 81,500 | 597,952 |
| **Is-gyfanswm** | **547,817** | **598,104** | **102,362** | **700,466** |
| **Trafodiadau Ariannol** | | | | |
| Yr Economi | 32,150 | 10,900 | 62,060 | 72,960 |
| Trafnidiaeth | 1,200 | 0 | 12,300 | 12,300 |
| **Is-gyfanswm** | **33,350** | **10,900** | **74,360** | **85,260** |
| **Cyfanswm Cyfalaf Traddodiadol a Thrafodiadau Ariannol** | | | | |
| Yr Economi | 129,284 | 92,552 | 82,922 | 175,474 |
| Trafnidiaeth | 451,883 | 516,452 | 93,800 | 610,252 |
| **CYFANSWM** | **581,167** | **609,004** | **176,722** | **785,726** |

## 3.1 Refeniw

Mae symudiad o £30.081m yn y gyllideb refeniw, gan gynnwys £2.4m heb fod yn arian parod, fel y crynhoir yn Nhabl 3 isod

| TABL 3: Symudiadau yn y Gyllideb Refeniw | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Economi £'000** | **Trafnidiaeth £'000** | **Sgiliau £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| ***Dyraniadau Ychwanegol*** | | | | |
| **Cyllid Pontio'r UE** | | | | |
| Cronfa Cydnerthedd Brexit - Meithrin Gallu ar y Cyd | 150 | | | **150** |
| Cronfa Cydnerthedd Brexit - Grantiau | 830 | | | **830** |
| Airbus a gweithgynhyrchwyr modurol sy'n rhanbarthol bwysig | | | 1,600 | **1,600** |
| **Is-gyfanswm** | **980** | | **1,600** | **2,580** |
| Cyllid Arloesol - A465 | | 650 | | **650** |
| Hyrwyddwyr Anabledd | 275 | | | **275** |
| Masnachfraint Rheilffyrdd | | 15,000 | | **15,000** |
| Prentisiaethau | | | 9,000 | **9,000** |
| ***Cyfanswm*** | **1,255** | **15,650** | **10,600** | **27,505** |
| ***Ailflaenoriaethu a Chysoni*** | | | | |
| Datblygu Economaidd Rhanbarthol | (2,763) | | | **(2,763)** |
| Atgyfnerthu Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 513 | | | **513** |
| Cymoedd Technoleg | 2,250 | | | **2,250** |
| Trosglwyddo o Weithrediadau Seilwaith TGCh i Gardiau Clyfar er mwyn atgyfnerthu systemau Tocynnau Clyfar ar Drafnidiaeth Gyhoeddus | (500) | | | **(500)** |
| | | 500 | | **500** |
| Trosglwyddo o Trafnidiaeth Cymru i Wasanaethau Rheilffyrdd Ategol ar gyfer gwasanaethau y tu allan i gontract Trafnidiaeth Cymru. | | (850) | | **(850)** |
| | | 850 | | **850** |
| ***Cyfanswm*** | **(500)** | **500** | **0** | **0** |
| ***Symudiadau Eraill*** | | | | |
| Trosglwyddiad o'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg er mwyn cysoni cyllidebau | | | 176 | **176** |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **176** | **176** |
| ***Heb Fod yn Arian Parod*** | | | | |
| Dibrisiant Fibrespeed | 1,000 | | | **1,000** |
| Dibrisiant Gyrfa Cymru | | | 1,400 | **1,400** |
| **Cyfanswm Heb Fod yn Arian Parod** | **1,000** | **0** | **1,400** | **2,400** |
| **Cyfanswm Refeniw** | **1,755** | **16,150** | **12,176** | **30,081** |

## 3.2 Cyfalaf

Caiff cyfanswm y dyraniadau cyfalaf traddodiadol a thrafodiadau ariannol ychwanegol o £176.722m eu crynhoi yn Nhabl 4 isod, ynghyd â newidiadau sy'n deillio o ailflaenoriaethu a chysoni:

| TABL 4: Cyllideb Gyfalaf – Dyraniadau Ychwanegol/Newidiadau | | | |
|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Economi £'000** | **Trafnidiaeth £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | |
| Cyflawni'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi | 20,862 | | **20,862** |
| Cynnal a Chadw Ffyrdd | | 15,000 | **15,000** |
| Metro Gogledd Cymru | | 20,000 | **20,000** |
| Cydnerthedd Ffyrdd | | 25,000 | **25,000** |
| Trawsnewid Cerbydau Trydan | | 21,500 | **21,500** |
| **Is-gyfanswm** | **20,862** | **81,500** | **102,362** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | |
| Cronfa Ad-daladwy i BBaChau | 5,000 | | **5,000** |
| Banc Datblygu Cymru - Cronfa Ficrofenthyciadau i Fusnesau | 6,000 | | **6,000** |
| Banc Datblygu Cymru - Cyfalaf Datblygu BBaChau | 20,000 | | **20,000** |
| Cronfa Eiddo Masnachol | 14,000 | | **14,000** |
| Tirion Homes - Preswyl | 18,400 | | **18,400** |
| Ad-dalu Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | (1,340) | | **(1,340)** |
| Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd | | 4,800 | **4,800** |
| Trawsnewid Cerbydau Trydan | | 7,500 | **7,500** |
| **Is-gyfanswm** | **62,060** | **12,300** | **74,360** |
| ***Ailflaenoriaethu a Chysoni*** | | | |
| Hwyluso cyfnewidiad refeniw/cyfalaf mewn perthynas â'r Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol o'r Cymoedd Technoleg i Ddatblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | (2,250) | | **(2,250)** |
| | 2,250 | | **2,250** |
| Rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw cyfalaf er mwyn mynd i'r afael ag ôl-groniad - trosglwyddo o'r Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol i Weithrediadau'r Rhwydwaith | | (14,966) | **(14,966)** |
| | | 14,966 | **14,966** |
| Rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi er mwyn cadw'r amlen tocynnau teithio rhatach - trosglwyddo o'r Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol i Docynnau Teithio Rhatach | | (9,651) | **(9,651)** |
| | | 9,651 | **9,651** |
| **Is-gyfanswm** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **82,922** | **93,800** | **176,722** |

Mae'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) sy'n darparu dadansoddiad llawn o gyllidebau refeniw a chyfalaf y portffolio wedi'u rhestru fesul Cam Gweithredu yn adrannau 5, 7 a 9.

Mae'r MEG Economi a Thrafnidiaeth hefyd yn cynnwys dyraniad cyllideb ar gyfer AME, sy'n darparu ar gyfer taliadau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, megis amhariadau ar y portffolio eiddo, cyd-fentrau, buddsoddiadau a'r rhwydwaith ffyrdd. Mae lleihad o £32.912m yn y ddarpariaeth ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd ac amhariadau eiddo.

## 4.0 Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd, y Gymraeg ac Ystyriaethau Demograffig

Wrth lunio ein cynlluniau, mae'r tueddiadau demograffeg allweddol canlynol o'r adroddiad diweddar, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), ar ragamcanion poblogaeth 2018 wedi eu hystyried, sy'n awgrymu'r canlynol:

- Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 0.6% i 3.16 miliwn erbyn 2028, ond y bydd yn gostwng 0.9% i 3.11 miliwn erbyn 2043. Dyma'r tro cyntaf i ostyngiad tymor hwy yn y boblogaeth gael ei ragweld yng Nghymru yn ddiweddar.
- Rhagwelir y bydd nifer y plant dan 16 oed yn gostwng 6.8% i 524,300 rhwng 2018 a 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed yn gostwng 1.7% i 1,890,400 rhwng 2018 a 2028.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu 13.8% i 742,200 ac y bydd nifer y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu 29.0% i 377,300 rhwng 2018 a 2028.

Yn ôl y ffigurau Tlodi Incwm Cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 2018:

- Roedd 24% o'r holl bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2015-16 a 2017-18. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn gymharol sefydlog (rhwng 22 a 24%) dros y 15 cyfnod amser blaenorol. Mae'r ffigur, sef 24%, yr un fath â'r llynedd.

- Plant oedd y grŵp oedran a oedd yn fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2015-16 a 2017-18 (29%), ac mae hyn wedi bod yn wir ers peth amser. Mae hyn yn gynnydd o'r ffigur a gofnodwyd y llynedd, sef 28%, a dyma'r drydedd waith yn unig i'r ffigur hwn fod islaw 30% ers y cyfnod hyd at 2005-06.

- Roedd 23% o oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2015-16 a 2017-18. Mae hyn yn is na'r ffigur a gofnodwyd y llynedd, sef 24%. Mae'r ffigur wedi aros rhwng 21 a 23% yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnodau amser ers diwedd y 1990au.

- Roedd 19% o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2015-16 a 2017-18. Mae hyn yn is na'r ffigur a gofnodwyd y llynedd, sef 20%, ac mae'n dal i fod yn is na'r ffigurau o ganol y 1990au i ddiwedd y 1990au.

- Roedd byw mewn aelwyd lle nad oedd neb yn gweithio yn cynyddu'r siawns o fyw mewn tlodi incwm cymharol i oedolion o oedran gweithio a phlant.

- Roedd plant a oedd yn byw mewn teuluoedd un rhiant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r rheini a oedd yn byw mewn aelwydydd â chwpl.

- Roedd pobl a oedd yn byw mewn cartrefi lle'r oedd pennaeth yr aelwyd yn perthyn i grŵp ethnig heb fod yn wyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â'r rheini lle'r oedd pennaeth yr aelwyd yn perthyn i grŵp ethnig gwyn.

- Roedd byw mewn aelwyd gyda pherson ag anabledd yn cynyddu'r tebygolrwydd o fyw mewn tlodi incwm cymharol i blant ac oedolion o oedran gweithio, ond nid i bensiynwyr.

Paratowyd ein cynlluniau gan ddefnyddio dull integredig o wneud penderfyniadau yn unol â Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb, ystyriwyd ein penderfyniadau allweddol ynghylch y gyllideb er mwyn deall yn well yr effaith gyffredinol ar wahanol grwpiau o bobl. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth sylfaenol wrth asesu effaith penderfyniadau.

Mae ein cyllidebau'n cefnogi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi sy'n amlinellu newidiadau o ran polisïau, dulliau cyflawni ac ymddygiad i gefnogi ac adlewyrchu ein hamcanion Llesiant. Nod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yw cefnogi lefelau gwell o gyfoeth a llesiant, gan leihau anghydraddoldebau a brofir gan unigolion a chymunedau ledled Cymru. Mae hefyd yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol, yn seiliedig ar sylfeini cadarn, diwydiannau cryf iawn yn y dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn hyrwyddo'r ddau nod o dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb.

## 5.0 YR ECONOMI – CYLLIDO'R CAMAU GWEITHREDU

O'i gymharu â chyllideb ddangosol 2020-21, mae cynnydd net o £0.755m yn y dyraniad refeniw sy'n creu cyfanswm o £38.683m ac mae cynnydd o £1m yn y dyraniad heb fod yn arian parod. Cyfanswm y dyraniad cyfalaf ar gyfer 2020-21 yw £175.474m, sef cynnydd o £82.922m o'i gymharu â chyllideb derfynol 2019-20.

| Yr Economi | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 38,946 | (1,018) | 37,928 | 755 | 38,683 |
| Heb Fod yn Arian Parod | 1,309 | 0 | 1,309 | 1,000 | 2,309 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **40,255** | **(1,018)** | **39,237** | **1,755** | **40,992** |

| Yr Economi | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf Traddodiadol | 97,134 | 81,652 | 20,862 | 102,514 |
| Cyllid Trafodiadau Ariannol | 32,150 | 10,900 | 62,060 | 72,960 |
| **CYFANSWM** | **129,284** | **92,552** | **82,922** | **175,474** |

Rhoddir esboniad o'r dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu fesul BEL yn yr adrannau canlynol.

## 5.1 Cam Gweithredu Twf Cynhwysol a Diogelu Economi Cymru at y Dyfodol

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 6,385 | (250) | 6,135 | 663 | 6,798 |
| Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 2,763 | 0 | 2,763 | (2,763) | 0 |
| Entrepreneuriaeth | 5,364 | 0 | 5,364 | 275 | 5,639 |
| Mentrau Cymdeithasol a'r Economi | 730 | 0 | 730 | 0 | 730 |
| Busnes Cymru | 5,515 | (768) | 4,747 | 830 | 5,577 |
| Cymoedd Technoleg | 0 | 0 | 0 | 2,250 | 2,250 |
| Tasglu'r Cymoedd | 100 | 0 | 100 | 0 | 100 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **20,857** | **(1,018)** | **19,839** | **1,255** | **21,094** |

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 42,755 | 18,566 | 23,112 | 41,678 |
| Busnes Cymru | 1,802 | 0 | 0 | 0 |
| Cymoedd Technoleg | 10,000 | 10,000 | (2,250) | 7,750 |
| Tasglu'r Cymoedd | 12,500 | 19,500 | 0 | 19,500 |
| **Is-gyfanswm** | **67,057** | **48,066** | **20,862** | **68,928** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | |
| Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 5,050 | (1,100) | 3,660 | 2,560 |
| **Is-gyfanswm** | **5,050** | **(1,100)** | **3,660** | **2,560** |
| **CYFANSWM** | **72,107** | **46,966** | **24,522** | **71,488** |

Mae'r Cam Gweithredu Twf Cynhwysol a Diogelu Economi Cymru at y Dyfodol yn helpu i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Darparodd Cronfa Cydnerthedd Brexit werth £7.5m o gyllid dros y tair blwyddyn ariannol hyd at 2020-21. O ran refeniw, mae addasiad o £1.018m i'r llinell sylfaen gan gynnwys £0.918m o gyllid ar gyfer blwyddyn 2 a £0.100m o gyllid afreolaidd a ddyrannwyd yng Nghytundeb Cyllideb Dwy Flynedd Plaid Cymru ar gyfer y grant cychwynnol i newyddiadurwyr sy'n ceisio sefydlu eu busnesau eu hunain ym maes newyddion hyperleol. Yn 2020-21 ceir dyraniad terfynol o £0.980m ar gyfer meithrin gallu ar y cyd sy'n cynnwys £0.150m a chyllid grant o £0.830m.

Mae cyllidebau Entrepreneuriaeth, Busnes Cymru a Mentrau Cymdeithasol yn cefnogi entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, BBaChau, mentrau cymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol.

Caiff y Rhwydwaith o Ymgynghorwyr Anabledd ei gyllido am gyfnod o 12 mis gyda dyraniad ychwanegol o £275k, ac mae'r Rhwydwaith hwn yn hollbwysig o ran cymryd camau i newid agweddau cyflogwyr, lleihau stigma a rhoi cymorth gwell i gyflogwyr recriwtio a chadw pobl anabl. Mae swyddogion wrthi'n gweithio ar fanylion yr hyn a ddarperir ac yn ystyried sut i ymgorffori'r Rhwydwaith yng ngwasanaeth Busnes Cymru fel rhan o ddull dwy haen sy'n cynnwys Llysgenhadon Anabledd ym mhob rhanbarth a phecyn o gymorth dynodedig i BBaChau.

Ymrwymiad o £100m dros gyfnod o 10 mlynedd yw Cymoedd Technoleg i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy ym Mlaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, annog busnesau i fabwysiadu technolegau digidol a datblygu uwch-dechnolegau gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol. Caiff cyllid y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol o £2.250m ei ddarparu fel rhan o raglen gyfalaf Cymoedd Technoleg. Caiff yr angen am gyllid refeniw ei ddiwallu drwy ailflaenoriaethu cyllid o fewn rhaglenni cyfalaf a refeniw'r BEL Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol.

Caiff Ein Cymoedd, Ein Dyfodol ei gefnogi â £32m o gyllid cyfalaf ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21, gan gynnwys £7m ar gyfer Parciau Rhanbarthol y Cymoedd. Mae'r fenter hon eisoes yn dwyn partneriaid ynghyd o bob rhan o'r cymoedd gan greu fforwm i gyflawni a sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol. Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynnydd Diweddaraf - 2018-2019.

Caiff y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn 2020-21 ei gefnogi gan gyllid cyfalaf a thrafodiadau ariannol gwerth £44.238m, gan gynnwys dyraniadau ychwanegol o £20.862m ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a £5m o gyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer y Gronfa Ad-daladwy i Fusnesau Bach a Chanolig. Ceir £1.34m o ad-daliadau cyfalaf trafodiadau ariannol. Dylid nodi bod y cyllid cyfalaf o £1.802m yn afreolaidd ar gyfer cydnerthedd Brexit.

## 5.2 Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | 21,000 | 7,000 | 40,000 | 47,000 |
| **CYFANSWM** | **21,000** | **7,000** | **40,000** | **47,000** |

Mae Banc Datblygu Cymru yn gwella gallu BBaChau i gael mynediad at gyllid ac yn helpu i greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial economi Cymru drwy sicrhau bod mwy o gyllid effeithiol a chynaliadwy yn y farchnad. Mae'r £7m sy'n rhan o gyllideb derfynol 2019-20 yn ymwneud â chyllid ar gyfer Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru (£4m) a Chronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru (£3m).

Bydd dyraniadau ychwanegol o £40m yn atgyfnerthu'r cynnig i fusnesau ymhellach, gan gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru (£6m); Cyfalaf Datblygu BBaChau (£20m) a Chronfa Eiddo Masnachol (£14m), a fydd yn helpu i ddatblygu'r amodau sydd eu hangen i alluogi busnesau i ffynnu.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Banc Datblygu yn adran 6.6 isod.

## 5.3 Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | |
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 8,704 | 0 | 8,704 | 0 | 8,704 |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 990 | 0 | 990 | 0 | 990 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 2,027 | 0 | 2,027 | (500) | 1,527 |
| Seilwaith Eiddo | 4,026 | 0 | 4,026 | 0 | 4,026 |
| **Is-gyfanswm** | **15,747** | **0** | **15,747** | **(500)** | **15,247** |
| **Heb Fod yn Arian Parod** | | | | | |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 1,309 | 0 | 1,309 | 1,000 | 2,309 |
| **Is-gyfanswm** | **1,309** | **0** | **1,309** | **1,000** | **2,309** |
| **Cyfanswm Refeniw** | **17,056** | **0** | **17,056** | **500** | **17,556** |

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 17,500 | 26,000 | 0 | 26,000 |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 10,000 | 4,200 | 0 | 4,200 |
| Seilwaith Eiddo | 2,577 | 3,386 | 0 | 3,386 |
| **Is-gyfanswm** | **30,077** | **33,586** | **0** | **33,586** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | |
| Seilwaith Eiddo | 6,100 | 5,000 | 18,400 | 23,400 |
| **Is-gyfanswm** | **6,100** | **5,000** | **18,400** | **23,400** |
| **CYFANSWM** | **36,177** | **38,586** | **18,400** | **56,986** |

Mae'r cyllidebau Seilwaith TGCh yn helpu i ddatblygu, rheoli a gweithredu rhaglenni a phrosiectau Seilwaith TGCh cenedlaethol y gellir eu categoreiddio o dan yr ymyriadau cyffredinol canlynol:  Band eang cyflym i bawb yng Nghymru; systemau cyfathrebu sefydlog i fusnesau; gwell gwasanaethau data a llais symudol; gwasanaethau TGCh sector cyhoeddus ac ymyriadau carlam yn yr Ardaloedd Menter/Ardaloedd Twf Lleol. Bu trosglwyddiad o £0.5m i atgyfnerthu systemau tocynnau clyfar ar Drafnidiaeth Gyhoeddus.  Mae gofyniad dibrisiant ychwanegol o £1m ar gyfer Fibrespeed.

Mae prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus yn helpu’r sector cyhoeddus i sicrhau gwerth gwell am arian drwy alluogi mwy na 100 o sefydliadau a bron 5,000 o wasanaethau ar safleoedd, gan gynnwys meddygfeydd ac ysgolion, i brynu gwasanaethau rhwydweithio ardal eang ar y cyd.

Rôl y tîm Datblygu Seilwaith Strategol yw canolbwyntio ar elfennau masnachol fel y gellir defnyddio ffyrdd arloesol o gynnig pecynnau ariannol sy’n wahanol i’r adnoddau cymorth busnes arferol. Mae’r tîm yn gweithio’n agos gyda’r Tîm Busnes a Rhanbarthau a’r Tîm Mewnfuddsoddi ac yn eu cefnogi.  Y nod yw arwain neu gynghori ar gamau i ddarparu ystod o ddatrysiadau sy’n seiliedig ar fasnach, eiddo a chyllid i fusnesau, a fydd yn helpu i sicrhau twf mewn swyddi a chyfoeth.

Mae’r gyllideb refeniw eiddo yn talu costau ac ymrwymiadau portffolio eiddo masnachol sy'n cefnogi cynigion eiddo i fusnesau a'r taliadau unedol o dan gynllun PFI Rhodfa Lloyd George.  Caiff y gyllideb ei hategu gan incwm arall a gesglir gan yr is-adran Seilwaith Eiddo, sef derbyniadau rhent ac elw o waredu tir ac adeiladau yn bennaf.

Disgwylir y caiff y gyllideb gyfalaf ei chefnogi gan £26.5m a gaiff ei gynhyrchu drwy werthu tir ac eiddo a thua £1.282m o gyllid yr UE.  Caiff y cyllid hwn i gyd ei ddefnyddio i helpu i gyflawni’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, er mwyn darparu portffolio cytbwys o safleoedd ac adeiladau modern sy’n bodloni gofynion cynaliadwyedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol ac sy’n gallu bodloni amserlenni cwmnïau o ran meddiannaeth er mwyn rhoi mantais gystadleuol go iawn i Gymru dros leoliadau eraill.

Bu dyraniad cyfalaf trafodiadau ariannol o £18.4m mewn perthynas â Tirion Homes er mwyn cyflawni tri chynllun (Ely Mill, Caerdydd; Whiteheads, Casnewydd a Pharc Eirin, Tonyrefail) sy’n darparu datblygiadau preswyl gan ddefnyddio cyllid arloesol i adeiladu dros 1,500 o gartrefi newydd, y mae 50% ohonynt yn fforddiadwy.  Mae gwaith wedi dechrau ar gartrefi newydd effeithlon o ran ynni (*Energy Positive*), sy’n allforwyr trydan net, a fydd yn cyfrannu ynni at y Grid Cenedlaethol.

## 5.4 Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £’000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £’000 | Newid £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu Polisïau Strategol | 450 | 0 | 450 | 0 | 450 |
| Cymru Iach ar Waith | 831 | 0 | 831 | 0 | 831 |
| Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol | 961 | 0 | 961 | 0 | 961 |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | 100 | 0 | 100 | 0 | 100 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **2,342** | **0** | **2,342** | **0** | **2,342** |

Mae’r gyllideb refeniw yn cynnwys dyraniad ar gyfer Cymru Iach ar Waith, sy’n cynnal mentrau yn y gweithle i gefnogi’r uchelgeisiau iach ac egnïol a nodir yn Ffyniant i Bawb. Mae’r cyllid yn cynnwys £0.052m ar gyfer llinyn cyflogwyr Cam 3 o raglen Amser i Newid Cymru Mind Cymru, sy’n herio agweddau ac ymddygiadau negyddol yn y gweithle tuag at broblemau iechyd meddwl.

Mae gweddill y gyllideb refeniw yn cefnogi dadansoddiadau economaidd, adolygiadau a gwaith ymgysylltu strategol.

## 6.0 YR ECONOMI – POLISÏAU ALLWEDDOL

Darparwyd gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r meysydd penodol a amlygwyd gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

### 6.1 Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

Ers i'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth roi elfennau allweddol o'r Cynllun ar waith a'u gwreiddio. Yn ganolog i'r gwaith hwn fu'r camau i ddatblygu a chyflwyno'r model gweithredu newydd (y Contract Economaidd, y Meysydd Gweithredu a Chronfa Dyfodol yr Economi). Dyma ganolbwynt y Cynllun ac mae bellach yn llywio ein cydberthynas â busnesau.

Fel rhan o'n ffocws parhaus ar dwf cynhwysol, rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn ddatblygu a gwreiddio'r contract economaidd ymhellach, er mwyn sicrhau ei fod yn ymestyn y tu hwnt i'r busnesau hynny sy'n cael cyllid uniongyrchol gennym. Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ar hyn.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd mewn perthynas â nifer o elfennau allweddol eraill y cynllun, yn enwedig datblygu economaidd rhanbarthol a'r model twf economaidd sy'n seiliedig ar leoedd; mae'r Prif Swyddogion Rhanbarthol yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu hyn, gan weithio tuag at Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol. Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud hefyd o ran yr economi sylfaenol, a ategir gan waith trawslywodraethol cadarn, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau arbrofol a gaiff eu hariannu drwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol.

### 6.2 Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, cafodd tair uned economaidd ranbarthol eu sefydlu ym mis Ebrill 2019 dan arweiniad y prif swyddogion rhanbarthol i arwain, cysoni a chynllunio gweithgareddau economaidd ym mhob rhanbarth.

Ar y cyd â rhanddeiliaid rhanbarthol, rydym yn datblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol er mwyn helpu i hwyluso gwaith ar y cyd a nodi cyfres o flaenoriaethau economaidd cyffredin ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Y bwriad yw y bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn gweithredu fel strategaethau datblygu economaidd i bob rhanbarth, a gaiff eu cynllunio a'u gweithredu ar y cyd â'r partneriaid rhanbarthol ac a fydd yn gallu llywio datblygiad a gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig.

Bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn nodi cryfderau a heriau unigryw pob un o ranbarthau Cymru ac yn pennu egwyddorion gweithio i gefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, gan helpu Llywodraeth Cymru a phartneriaid sy'n cymryd rhan i gyfrannu at y Nodau Llesiant i Gymru. Mae hyn yn gyson â nodau'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol (Cymru gyfan) cenedlaethol sydd yn yr arfaeth, ac yn eu hategu.

Caiff y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol eu llywio gan gynlluniau, rhaglenni a pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol presennol gan gynnwys y bargeinion dinesig a thwf rhanbarthol, cynlluniau sgiliau rhanbarthol, y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, cynlluniau datblygu lleol, strategaethau adfywio a datblygu economaidd lleol a Chynlluniau Llesiant Lleol, a chynigion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith rhanbarthol, gan gynnwys y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Chronfeydd Rhanbarthol ar ôl gadael yr UE.

Bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, a gaiff eu datblygu ar y cyd, yn sicrhau bod anghenion lleoedd a phartneriaid rhanbarthol a lleol yn cael eu deall yn llawn a'u hymgorffori mewn cyfres o amcanion cyffredin. Byddant yn allweddol er mwyn llunio a chyfeirio ymyriadau ar ffurf polisïau a rhaglenni ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Mae cyllideb 2020-21 yn cynnwys dyraniad refeniw o tua £0.6m a fydd yn cyllido amrywiaeth o weithgareddau, pecynnau gwaith ac ymchwil a fydd yn helpu i ddatblygu a llunio'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth.

Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol (yn enwedig partneriaid o fewn awdurdodau lleol, arweinwyr busnes, y trydydd sector, y byd academaidd a chyrff cyhoeddus eraill) er mwyn cael eu cymorth i gyd-gynllunio a llunio fframweithiau economaidd rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru a Dinas Ranbarth Bae Abertawe. Mae timau sy'n ymwneud â busnesau wedi cael eu had-drefnu ar sail ranbarthol er mwyn hwyluso mwy o gydweithio rhwng partneriaid a chysoni gweithgarwch sy'n hwyluso twf economaidd ac yn osgoi achosion o ddyblygu ymdrechion, gan ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr un pryd. Wrth i'r cydweithio ar y fframweithiau rhanbarthol ddatblygu, byddwn yn manteisio'n llawn ar y cyfle i gysoni gweithgarwch, adnoddau a, lle y bo'n bosibl, waith ar y cyd fel rydym yn ei wneud gyda Chyngor Sir Powys i gydleoli adnoddau. Mae datblygu bargeinion dinesig a thwf yn greiddiol i'r cydweithio hwn.

## 6.3 Cronfa Dyfodol yr Economi

Mae'r cronfeydd canlynol wedi'u cyfuno i greu Cronfa Dyfodol yr Economi:

- Buddsoddi Cyfalaf a Chymorth i Greu Swyddi
- Cyllid Cynhyrchu Creadigol
- SMART Cymru
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth
- Cynllun Amddiffyn yr Amgylchedd
- Cronfa Ad-daladwy i BBaChau

Dylid nodi bod y cyllid ar gyfer cynhyrchu creadigol a'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth wedi'i gynnwys yn y MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg.

Ers ei lansio yn 2018, mae 155 o gynigion gwerth cyfanswm o £48.1m wedi cael eu derbyn o dan Gronfa Dyfodol yr Economi.

## 6.4 Cynlluniau Galluogi

Rydym yn bwriadu datblygu Cynllun Galluogi ar gyfer yr 'Economi Sylfaenol' yn hytrach na'r 'Sectorau Sylfaen' fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Gwneir hyn er mwyn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn ffordd ehangach erbyn hyn.

Caiff y cynllun ei ddatblygu dros amser a bydd y dystiolaeth a'r gwersi sy'n deillio o Gronfa Her yr Economi Sylfaenol yn elfen allweddol. Wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu ac wrth i gamau gweithredu penodol gael eu nodi, caiff ystyriaeth ei rhoi i ddyraniadau ariannol posibl i roi'r cynllun ar waith os bydd angen.

## 6.5 Cronfa Her yr Economi Sylfaenol

Cafodd cyllideb wreiddiol Cronfa Her yr Economi Sylfaenol, sef £1.5m, ei sicrhau fel rhan o gytundeb ar y gyllideb â Phlaid Cymru. Yn gynharach eleni, penderfynodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gynyddu'r gronfa i £3m. Mewn ymateb i'r galw ac ansawdd y ceisiadau, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth fod cyllideb y gronfa wedi cael ei threblu i fwy na £4.5m ym mis Hydref.

Mae'r gronfa ddiwygiedig yn werth £4.6m erbyn hyn, gyda £2.4m wedi cael ei neilltuo ar gyfer ardal Tasglu'r Cymoedd, a bydd yn cefnogi 52 o brosiectau llwyddiannus ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cost weinyddol o £125,000 ar gyfer monitro a gwerthuso. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ymrwymo i fod yn Gymuned Ymarfer rydym yn ei datblygu i gefnogi prosiectau, lle mae dysgu ar y cyd, lledaenu a'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion yn ofynion allweddol.

## 6.6 Banc Datblygu Cymru

Cylch gwaith Banc Datblygu Cymru yw gwella gallu BBaChau i gael mynediad at gyllid, er mwyn sefydlu, atgyfnerthu a thyfu, a thrwy hynny greu a diogelu swyddi. Mae'n ymrwymedig i fuddsoddi mewn ffordd gydweithredol, integredig a hirdymor, gan gynnwys pobl o bob demograffeg er mwyn sicrhau twf cynaliadwy yng Nghymru. Ym mhob cronfa neu fenter newydd a gynigir, mae'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio yn cyd-fynd ag allbynnau a chanlyniadau. Mae Banc Datblygu Cymru hefyd yn ceisio integreiddio'r cyngor a'r cymorth buddsoddi a roddir i fusnesau yn well drwy weithio'n agosach gyda Busnes Cymru.

Ymhlith yr effeithiau a'r allbynnau allweddol mae'r canlynol:

- Cyflawni'r targed buddsoddi blynyddol pum mlynedd o £80m ymhen deunaw mis yn unig. Mae bellach yn ceisio buddsoddi £100m y flwyddyn erbyn 2022.
- Cyrraedd y targed sylfaenol, sef cymhareb trosoledd gan y sector preifat o 1:1.15. Llwyddodd y Banc i sicrhau £126m o fuddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat yn 2018-19.
- Cefnogi 1,400 o fusnesau dros bum mlynedd i gynyddu nifer y swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu i dros 5,500 y flwyddyn erbyn 2021-22. Cefnogodd y Banc 358 o fentrau, gan greu neu ddiogelu dros 3,700 o swyddi yn 2018-19.

Yn ystod 2019, parhaodd Banc Datblygu Cymru i adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cynyddu nifer y staff yn ei bencadlys newydd yn Wrecsam i bron 40; ac agor swyddfa yng Nghyffordd Llandudno ar gyfer ei dîm buddsoddi yn y Gogledd-Orllewin. Mae hyn yn dangos eto bod y Banc yn gwasanaethu Cymru gyfan ac yn atgyfnerthu ein heconomïau rhanbarthol.

- Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth dair cronfa newydd ar gyfer Banc Datblygu Cymru:

    - Cronfa Eiddo Masnachol Cymru sy'n werth £55m,
    - Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru sy'n werth £50m,
    - Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru sy'n werth £16.2m. (wedi cynyddu i £30m ym mis Hydref)

- Hefyd, llwyddodd y Banc i sicrhau buddsoddiad ecwiti sefydliadol am y tro cyntaf, wrth i Gronfa Bensiynau Clwyd fuddsoddi £10m yng Nghronfa Olyniaeth Rheoli Cymru.

Darperir cyllid ychwanegol o £40m fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon:

- Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru (£6m) sy'n anelu at gefnogi o leiaf 1,212 o fusnesau; creu/diogelu 6,220 o swyddi; a chymhareb trosoledd gan y sector preifat o 1:0.70.

- Cyllid ychwanegol ar gyfer y Gronfa Eiddo Masnachol (£14m) i ddiwallu'r angen rhanbarthol a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Eiddo i ddarparu tua 150,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr cyflogaeth modern, o ansawdd uchel sy'n gallu cefnogi buddsoddiad cynhenid a mewnfuddsoddiad.

- Cyllid ychwanegol o £20m ar gyfer cronfa Cyfalaf Datblygu BBaChau. Mae'r achos busnes llawn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae Banc Datblygu Cymru bellach yn rheoli mwy na £0.5bn er mwyn cefnogi mentrau yng Nghymru ac mae mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n deillio o Brexit ac mae'n gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit heb gytundeb a chamau gweithredu eraill i gefnogi busnesau yng Nghymru ymhellach.

Y prif broblemau sy'n debygol o gael eu cyflwyno gan Fusnesau yw llif arian a hyder. Mae gan Fanc Datblygu Cymru dros £100m o gyfalaf, drwy Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru, i'w fuddsoddi'n gyflym. Cafodd y gronfa hon ei sefydlu ar ôl Refferendwm 2016 ac fe'i lluniwyd yn benodol i fod mor hyblyg â phosibl er mwyn bodloni gofynion ansicr yn y dyfodol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Banc Datblygu Cymru.

## 6.7 Ardaloedd Menter, Ardaloedd Twf Lleol ac Ardaloedd Gwella Busnes

Mae wyth Ardal Fenter yng Nghymru a'u hamcan yw:

- Tyfu'r economi leol a darparu swyddi newydd.
- Ysgogi twf mewn mannau eraill yng Nghymru.
- Gwneud yr Ardal Fenter yn fwy deniadol i fuddsoddwyr.
- Gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol.

Mae cyllid refeniw o £0.77m wedi cael ei ddarparu yn 2020-21 i'r Ardaloedd Menter fel rhan o'r Cam Gweithredu Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol. Mae'r rhaglen yn cynnwys astudiaethau dichonoldeb a gwaith i ddatblygu achosion

busnes. Nid oes dyraniad cyfalaf dynodedig i'r rhaglen ei hun, gan fod unrhyw fentrau wedi'u hymgorffori yn y broses gyflawni ac wedi'u cyllido o fewn y BELs Datblygu Busnes (Cymorth Uniongyrchol) a Datblygu Seilwaith Strategol.

Caiff diweddariad ar gynnydd prosiectau allweddol yn yr Ardaloedd Menter ei gyhoeddi bob blwyddyn. Caiff yr adroddiad diweddaraf ei gyhoeddi'n fuan.

Ar ôl i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ystyried y mater y llynedd, mae adolygiad wedi cael ei gynnal o'r rhaglen Ardaloedd Menter ac mae argymhellion yr adolygiad hwnnw, a fydd yn helpu i roi'r cynllun ar waith yn y dyfodol, yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae trefniadau llywodraethu symlach wedi cael eu cyflwyno ar gyfer Byrddau Cynghori'r Ardaloedd Menter hefyd, wrth i bedwar o'r Byrddau gael eu dirwyn i ben gan eu bod wedi cyflawni eu nodau i bob pwrpas. Caiff y trefniadau llywodraethu eu hadolygu ymhellach ar ddechrau 2021.

**Datblygu a Chyflawni Rhanbarthol**

Mae'r gyllideb o £0.263m ar gyfer 2020-21 yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau rhanbarthol a mentrau trawsffiniol gan gynnwys noddi digwyddiadau a gweithgareddau rhanbarthol ar gyfer partneriaethau economaidd rhanbarthol, fel gwaith ymchwil ac astudiaethau dichonoldeb. Y portffolio Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rheoli Ardaloedd Gwella Busnes ac rydym yn parhau i weithio'n agos er mwyn ystyried Ardaloedd Gwella Busnes traddodiadol sy'n seiliedig ar ganol trefi a dau gynnig arloesol arall, a fydd yn treialu'r cysyniad mewn lleoliad diwydiannol/sector.

Mae'r model Ardal Twf Lleol wedi cael ei dreialu yn Nyffryn Teifi ac ym Mhowys fel ateb gwledig i Ardaloedd Menter. O dan y trefniadau rhanbarthol newydd ar gyfer datblygu economaidd, bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid rhanbarthol i ystyried y model yng nghyd-destun y gwaith rhanbarthol ehangach.

## 6.8 Cymorth ar gyfer Mewnfuddsoddi

Mater i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yw hwn bellach.

## 6.9 Cymorth i'r diwydiant dur

Rydym yn ymrwymedig o hyd i gefnogi'r diwydiant dur yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sector.

Mae'r Nodyn Cyngor Caffael (PAN) Dur a gyhoeddwyd yn 2018 yn cefnogi'r defnydd o ddur cynaliadwy mewn prosiectau seilwaith sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i roi argymhellion PAN ar waith ac i annog mwy o gwmnïau yng Nghymru i ymrwymo i Siarter Dur y DU.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r sector i ddatblygu Cronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol a Chronfa Dur Glân Llywodraeth y DU.

## 6.10 Cymorth i'r Sector Modurol

Mae'r sector modurol yn cynnwys tua 150 o gwmnïau, gweithgynhyrchwyr cydrannau yn bennaf, sy'n cyflogi dros 18,000 o bobl gan ychwanegu £3bn at GYG Cymru. Cafodd y materion sy'n ymwneud â'r sector modurol ac ymateb Llywodraeth Cymru

eu trafod mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 7 Mawrth 2019, yn fuan ar ôl y cyhoeddiad y bydd cyfleuster Honda yn Swindon yn cau.

Cafodd y sector ergyd arall yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Mehefin 2019 y byddai Ffatri Injans Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cau. Mewn ymateb i'r colledion swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effaith economaidd a chymdeithasol ehangach y cyhoeddiad hwnnw, cafodd Tasglu ei sefydlu ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae gwaith y Tasglu hwnnw bellach yn mynd rhagddo ac mae tri gweithgor â blaenoriaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

(i) Pobl – rhoi cymorth uniongyrchol er mwyn helpu unigolion i ganfod swyddi eraill neu ddewis gyrfaoedd eraill;
(ii) Lle – rhoi blaenoriaeth i welliannau i'r seilwaith cymdeithasol ac economaidd;
(iii) Potensial – datblygu a hwyluso piblinell o gyfleoedd buddsoddi i greu swyddi.

Mae cyhoeddiad diweddar INEOS y bydd yn sefydlu ffatri gweithgynhyrchu cerbydau ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan greu hyd at 500 o swyddi, yn arwydd clir o hyder yn y rhanbarth. Byddwn yn gweithio gydag INEOS a gweithgynhyrchwyr cerbydau eraill – yn enwedig wrth iddynt newid i yriant trydan – er mwyn rhoi cyfle i gynifer o gwmnïau yng Nghymru â phosibl fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Byddwn yn parhau i gefnogi cwmnïau yn y sector i wella lefelau cystadleurwydd ac arloesedd er mwyn bod yn fwy cydnerth.

Ym mis Rhagfyr 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Fforwm Modurol Cymru a Diwydiant Cymru, uwchgynhadledd a oedd yn canolbwyntio ar y newidiadau sy'n wynebu'r sector o ganlyniad i bwysau amgylcheddol a tharfu technolegol.

Gan dynnu sylw at y newid cynyddol i gerbydau trydan, cysylltiedig ac awtonomaidd, dangosodd yr uwchgynhadledd bod angen i gwmnïau yng Nghymru ystyried sut y gall newidiadau o'r fath effeithio arnynt a pha fath o gymorth y gall fod ei angen arnynt i newid i gadwyni cyflenwi newydd.

## 6.11 Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020 – Strategaeth Twristiaeth

Mater i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yw hwn bellach.

## 6.12 Bargeinion Dinesig a Thwf

Mae bargeinion yn rhoi fframwaith sy'n galluogi rhanbarthau i hyrwyddo gwaith ar y cyd, pennu blaenoriaethau sy'n cefnogi uchelgeisiau ac amcanion economaidd lleol fel un llais, a chyflawni swyddogaethau allweddol ar lefel strategol.

Caiff cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer pob Bargen ei reoli drwy'r MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd oedd y fargen gyntaf y cytunwyd arni yng Nghymru yn 2016 ac mae bellach ar y cam cyflawni. Mae'n rhoi adnoddau i bartneriaid lleol ddatgloi'r potensial am dwf economaidd sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Sefydlwyd Cronfa Fuddsoddi gwerth £1.2bn dros gyfnod o 20 mlynedd i adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth, ei sylfaen sgiliau gadarn a'i brifysgolion llwyddiannus.

Mae’r Fargen yn cynnwys dros £730m o gyllid i gynllun Metro De Cymru, y mae Llywodraeth Cymru yn darparu dros £500m ohono.  Bydd hyn yn gwella trafnidiaeth gyhoeddus ac yn trawsnewid y ffordd y mae pobl yn teithio o gwmpas y rhanbarth. Mae’r Fargen hefyd yn cynnwys cronfa fuddsoddi ehangach o £495m, sydd ar gael i’w blaenoriaethu yn unol â nodau’r Fargen.

Dros ei hoes, nod y fargen yw creu hyd at 25,000 o swyddi newydd a denu buddsoddiad ychwanegol o £4bn gan y sector preifat.

Mae nifer o fuddsoddiadau wedi cael eu gwneud hyd yma, fel £37m mewn clwstwr technoleg o’r radd flaenaf yng Nghasnewydd, sefydlu Cynllun i Raddedigion ac, ym mis Mehefin 2019, sefydlu Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd i asesu cyfleoedd buddsoddi a sicrhau bod y buddsoddiadau hynny’n cael yr effaith fwyaf bosibl.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer y gronfa fuddsoddi ei rheoli fel rhan o’r MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus dros 20 mlynedd y Fargen. Caiff y dyraniad cyllid llawn ei roi ar yr amod bod y Fargen Ddinesig yn cwblhau Adolygiadau Gateway Pum Mlynedd yn llwyddiannus. Cynhelir yr adolygiad Gateway pum mlynedd cyntaf yn 2020 a bydd yn asesu’r cynnydd sy’n cael ei wneud i gyflawni’r targedau yr ymrwymodd y partneriaid iddynt drwy’r Gronfa fuddsoddi.

**Bargen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe**

Dros y 15 mlynedd nesaf, mae Bargen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe, sy’n werth £1.3bn, yn anelu at roi hwb o £1.8bn i’r economi leol a chreu bron 10,000 o swyddi newydd, gan ddenu £637m gan y sector preifat.

Yn sail i’r Fargen hon mae 11 o gynigion ar gyfer prosiectau mawr i ddarparu cyfleusterau o’r radd flaenaf ym meysydd ynni, gweithgynhyrchu clyfar, arloesedd a gwyddor bywyd, a chaiff pob un o’r rhain eu hategu gan fuddsoddiad mawr yn seilwaith digidol y rhanbarth a sgiliau a thalentau’r gweithlu.

Caiff y Fargen hon, sy’n werth £1.3bn, ei hategu gan £125.4m o gyllid gan Lywodraeth Cymru, £115.6m o gyllid gan Lywodraeth y DU, £396m o arian arall y sector cyhoeddus a £637m gan y sector preifat.  Mae cyllid y DU ar gyfer y fargen yn llifo drwy gyllideb Llywodraeth Cymru i’r corff atebol.

Roedd Llywodraeth Cymru yn cadw gwerth dwy flynedd o gyllid wedi’i broffilio wrth gefn, sy’n creu cyfanswm o £36m (ar gyfer 2018-19 a 2019-20).  Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau cyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae Gweinidogion wedi cytuno i ryddhau £18m o gyllid o raglen y fargen ddinesig, yn amodol ar delerau ac amodau, yn seiliedig ar gymeradwyo achosion busnes ar gyfer dau brosiect; caiff yr arian hwn ei dalu ym mis Rhagfyr.  Mae’n bosibl y bydd £18m arall hefyd ar gael yn 2019-20 ar gyfer y Fargen, ar yr amod bod y rhanbarth yn bodloni'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad cychwynnol o £18m.

Mae hyn yn arwydd bod y Fargen yn symud i’r cam cyflawni, ac yn dangos ein hyder yn y Fargen a’i photensial i sicrhau twf economaidd a newid gwirioneddol i gymunedau’r De-Orllewin.

**Bargen Twf y Gogledd**

Mae’r chwe awdurdod lleol wedi sefydlu cyd-bwyllgor o’r enw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sydd hefyd yn cynnwys partneriaid o'r sector addysg uwch, addysg bellach a’r sector preifat. Mae’r Bwrdd yn gyfrifol am gyflawni a rheoli Bargen Twf y Gogledd. Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda’r Bwrdd a rhanddeiliaid rhanbarthol eraill i ystyried y ffyrdd gorau y gall Bargen Twf y Gogledd gefnogi eu huchelgeisiau i sicrhau twf economaidd trawsnewidiol. Caiff Bargen Twf y Gogledd ei hadlewyrchu yn ein cynllun economaidd rhanbarthol ar gyfer y Gogledd.

Mae’r Rhaglenni sy’n rhan o’r Fargen Twf yn cynnwys: Ynni Carbon Isel, Trafnidiaeth Strategol, Cysylltedd Digidol, Gweithgynhyrchu Uwch, Tir ac Eiddo, Twristiaeth ar y Tir, a Sgiliau.

Cafodd Penawdau Telerau Bargen Twf y Gogledd eu llofnodi gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 4 Tachwedd 2019. Mae’r Penawdau Telerau yn nodi’r egwyddorion cyllidol a’r egwyddorion o ran rhaglenni y bydd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn eu dilyn wrth gydweithio â’i gilydd.

Dros gyfnod o 15 mlynedd, mae’r fargen yn rhoi cyfle i fuddsoddi bron £1bn yn y rhanbarth, gan gynnwys £120m yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac mae’n ceisio creu dros 4,000 o swyddi uniongyrchol a 10,000 o swyddi anuniongyrchol a chynyddu gwerth economi Gogledd Cymru o £13.6bn yn 2016 i £26bn erbyn 2035.

**Bargen Twf y Canolbarth**

Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid rhanbarthol i ddatblygu Bargen Twf ar gyfer y Canolbarth. Er nad ydym wedi cael cynnig gan y rhanbarth eto, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu £55m ar gyfer y Fargen fel “blaendal”, os caiff achos busnes boddhaol ei gyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi’r Fargen o hyd, a byddwn yn pennu ein dyraniad ariannol ar sail y cynnig pan ddaw i law.

Yn y cyfamser, mae awdurdodau lleol Ceredigion a Phowys yn cydweithio’n agos ac wedi sefydlu cyd-bwyllgor cysgodol i oruchwylio’r gwaith o ddatblygu’r cynnig. Yn ogystal, mae Grŵp Strategaeth Economaidd wedi cael ei sefydlu, sy’n cynnwys pobl fusnes allweddol o bob rhan o’r rhanbarth, er mwyn cynnig mewnbwn cadarn gan y sector preifat i lywio’r broses o ddatblygu a chyflwyno’r Fargen Twf.

Er nad ydym wedi cael cynnig gan y rhanbarth eto, mae rhai syniadau cynnar am raglenni yn dechrau cael eu cyflwyno i’w hystyried, sy’n adeiladu ar y cyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r rhanbarth, gan gynnwys ei amgylchedd naturiol a sectorau allweddol fel y sectorau ynni carbon isel, twristiaeth gwerth uchel, ac ati.

## 6.13 Cymorth ar gyfer Awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial

Mae’r pedwerydd chwyldro diwydiannol yn gyfle i fusnesau Cymru fod ar flaen y gad. Gall arloesedd sy’n seiliedig ar ddata fod yn ased craidd i’r economi, gan feithrin diwydiannau, prosesau a chynhyrchion newydd a chreu mantais gystadleuol sylweddol. Mae data eisoes yn trawsnewid y ffordd rydym yn byw ein bywyd, y ffordd rydym yn gweithio, y ffordd rydym yn siopa a’r ffordd rydym yn cymdeithasu.

Gall data chwarae rhan hollbwysig wrth hyrwyddo arloesedd, twf a llesiant os cânt eu defnyddio'n foesegol.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cydnabod bod mwy o fusnesau a chyrff gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud defnydd cynyddol o dechnolegau digidol wrth ddarparu eu gwasanaethau ond bod angen i'r newid hwnnw ddigwydd yn gyflymach.Mae awtomeiddio a digidoleiddio ymhlith y ffactorau allweddol sy'n ysgogi cystadleurwydd a chynhyrchiant ac rydym yn gweithio gyda busnesau i gynyddu a chefnogi eu buddsoddiad mewn gweithgarwch o'r fath drwy'r Maes Gweithredu Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digidoleiddio.

Drwy Gronfa Dyfodol yr Economi, rydym wedi cefnogi 77 o brosiectau gwerth dros £7m drwy'r Maes Gweithredu Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digidoleiddio.

Mae ein buddsoddiad mewn seilwaith a sgiliau digidol yn cefnogi amgylchedd lle y gall busnesau fanteisio i'r eithaf ar y buddiannau economaidd sy'n gysylltiedig â thrawsnewid digidol.

Rydym yn cefnogi llif llafur i mewn i sectorau sy'n gysylltiedig â sgiliau digidol drwy roi blaenoriaeth i ymestyn Prentisiaethau Uwch mewn pynciau STEM a phynciau technegol er mwyn creu'r genhedlaeth newydd nesaf o weithwyr proffesiynol i hyrwyddo arferion arloesol, creu cynhyrchion newydd a rhoi hwb i lefelau cynhyrchiant. Dechreuodd hyn ym mis Medi 2018 gyda Phrentisiaethau TGChyn ymwneud â Rhaglennu Meddalwedd, Seiberddiogelwch a Dadansoddeg Data a Llwybrau Gradd-brentisiaeth Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch. Yn fwy cyffredinol, ym mis Hydref 2019, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar strwythur fframweithiau prentisiaethau yn y dyfodol. Mae ein cynigion yn cynnwys strwythur symlach, diwygiedig o 23 o fframweithiau prentisiaethau lefel uchel, a gefnogir gan 72 o lwybrau galwedigaethol.

I ategu'r biblinell o unigolion mentrus sy'n ymuno â'r sector drwy ein llwybrau addysgol, rydym hefyd yn cynnal amrywiaeth o raglenni cymorth sgiliau i ddiwallu anghenion uniongyrchol cyflogwyr, fel Rhaglen Sgiliau Hyblyg Cymru. Mae prosiect cymorth penodol ym maes Sgiliau Digidol Uwch, o dan y llinyn rhaglen hwn, wedi cael ei sefydlu. Mae'r prosiect hwn yn galluogi cyflogwyr Cymru i gael gwerth 50% o gymorth yn erbyn hyfforddiant cymwys, sy'n cyd-fynd â'r pedwar maes a gymeradwywyd eisoes; datblygu meddalwedd a chymwysiadau ar y we, rheoli prosiectau technoleg, dadansoddeg data a gwyddor data, a phrosiectau seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth.

Mae'n amlwg y bydd graddfa a chyflymder newid ac arloesedd technolegol yn parhau i gael effaith fawr ar economi Cymru. Mae adroddiad yr Athro Phil Brown, Cyflawni trawsnewidiad economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith, a'i argymhellion ar draws y Llywodraeth yn cael eu trafod â rhanddeiliaid.

## 6.14 Brexit

Mae risg sylweddol y caiff economi Cymru ei niweidio o ganlyniad i Brexit. Mae'n amlwg bod busnesau'n gohirio gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi o ganlyniad i'r ansicrwydd parhaus a bydd yr effeithiau andwyol yn cynyddu ymhellach os bydd Brexit yn digwydd o dan y naill gytundeb neu'r llall y mae Llywodraeth y DU wedi'u negodi hyd yma.

Rydym wedi cyfathrebu ac ymgysylltu’n helaeth â busnesau er mwyn eu helpu i baratoi. Cyhoeddwyd Rhaglen Cymorth Busnes Brexit werth £7.5m ym mis Hydref 2018 (gyda dyraniad arall o £1.7m yn 2019-20 o ganlyniad i alw uchel) a fydd yn gwneud rhywfaint i gefnogi’r busnesau sy’n teimlo’r effaith fwyaf. Cyhoeddwyd bod £6m ychwanegol ar gael hefyd yn 2019-20, sef benthyciad o £5m drwy Fanc Datblygu Cymru ac £1m o gyllid grant cyfalaf.

Wrth i’r ansicrwydd barhau, rydym wedi cymryd camau i gynyddu Cronfa Dyfodol yr Economi. Gwyddom y byddai unrhyw gyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn esgor ar fuddiannau cadarnhaol os caiff ei fuddsoddi mewn sgiliau, seilwaith, ymchwil ac arloesedd a chymorth i fusnesau sydd â dyfodol hyfyw ac sy’n cyd-fynd â’n hamcanion.

Caiff cyfran fawr o’n cymorth i fusnesau ei ddarparu gan ddefnyddio cyllid yr UE ac nid yw gwarant Llywodraeth y DU ar gyfer rhaglenni a ariennir gan yr UE (os bydd Brexit heb gytundeb yn digwydd) ond yn cwmpasu cyllid dros oes prosiect os caiff cais llwyddiannus ei wneud cyn diwedd 2020. Mae popeth yn ansicr ar ôl hynny ac rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gadarnhau cyllid olynol i gymryd lle ein Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Wrth i ni symud ymlaen, rydym yn canolbwyntio fwyfwy ar farchnad fewnol y DU ar ôl Brexit a chytundebau masnach yn y dyfodol. Rydym yn gweithio i ddatblygu blaenoriaethau ar gyfer y negodiadau hyn sy’n seiliedig ar dystiolaeth economaidd a blaenoriaethau polisi yn y dyfodol.

## 6.15 Gwariant Ataliol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae ein hymyriadau ar draws y portffolio Economi a Thrafnidiaeth yn defnyddio ymyrraeth sylfaenol, gan adeiladu cydnerthedd a chreu’r amodau i atal problemau yn y dyfodol. Mae’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a’r Cynllun Cyflogadwyedd yn seiliedig ar dystiolaeth mai gwaith â chyflog da yw’r llwybr gorau allan o dlodi a’r amddiffyniad mwyaf yn erbyn tlodi i’r rhai sy’n wynebu risg. Drwy gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy a chymryd camau i geisio lliniaru rhai o’r heriau sy’n wynebu pobl wrth iddynt geisio cael swyddi, rydym yn ceisio lleihau’r tebygolrwydd y bydd teuluoedd yn profi tlodi ac osgoi costau hirdymor tlodi i’r gymdeithas. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd drwy fentrau a buddsoddiad wedi’i dargedu ledled Cymru.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac arbenigwyr amrywiol i asesu'r ffordd rydym yn mynd i’r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn drawsgydweithredol ac wedi’i strwythuro ar sail saith o’r deuddeg amcan llesiant:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant;
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg;
- Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd;
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes;
- Grymuso pawb â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid;
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig;
- Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Mae hefyd yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio. Mae’r meysydd gweithredu a’r contract economaidd yn herio’r Llywodraeth a busnesau i edrych ar fuddsoddiadau yn y dyfodol yn nhermau’r cyfraniad y byddant yn ei wneud i arloesedd ac

entrepreneuriaeth, ymchwil a datblygu ac awtomeiddio, allforion a masnach, cyflogaeth a sgiliau o ansawdd uchel, a datgarboneiddio. Dyma rai o'r heriau strategol allweddol y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau twf heddiw, yn ogystal â diogelu'r twf hwnnw yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau yn yr hirdymor.

## 7.0 TRAFNIDIAETH - CYLLIDO'R CAMAU GWEITHREDU

Mae trafnidiaeth yn cefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi i greu seilwaith modern a chysylltiedig. Mae cynnydd o £16.15m i'r gyllideb refeniw o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig.

Y dyraniad cyfalaf yw £610.252m sy'n cefnogi'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae angen blaenoriaethu gweithgarwch a rheoli cyllidebau o hyd er mwyn sicrhau bod y cynlluniau sy'n rhan o'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy.

Ceir crynodeb o'r gyllideb trafnidiaeth yn y tabl isod:

| **Trafnidiaeth** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 314,909 | (3,223) | 311,686 | 16,150 | 327,836 |
| Heb Fod yn Arian Parod | 188,691 | 0 | 188,691 | 0 | 188,691 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **503,600** | **(3,223)** | **500,377** | **16,150** | **516,527** |

| **Trafnidiaeth** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000** | **Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf Traddodiadol | 450,683 | 516,452 | 81,500 | 597,952 |
| Cyllid Trafodiadau Ariannol | 1,200 | 0 | 12,300 | 12,300 |
| **CYFANSWM** | **451,883** | **516,452** | **93,800** | **610,252** |

Rhoddir esboniad o'r dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu fesul BEL yn yr adrannau canlynol.

## 7.1 Camau Gweithredu Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd a Ffyrdd Domestig

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Asedau'r Rhwydwaith | 5,836 | (150) | 5,686 | 0 | 5,686 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 65,948 | (650) | 65,298 | 0 | 65,298 |
| **Is-gyfanswm** | **71,784** | **(800)** | **70,984** | **0** | **70,984** |
| **Heb Fod yn Arian Parod** | | | | | |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 188,691 | 0 | 188,691 | 0 | 188,691 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **260,475** | **(800)** | **259,675** | **0** | **259,675** |

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Rheoli Asedau'r Rhwydwaith | 850 | 0 | 0 | 0 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 75,963 | 51,613 | 29,966 | 81,579 |
| **CYFANSWM** | **76,813** | **51,613** | **29,966** | **81,579** |

Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ddarparu Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd diogel a dibynadwy. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod cyllid priodol ar gael i gyflawni'r amcan hwn er mwyn rheoli'r rhwydwaith yn barhaus yn ogystal â chynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith.

Yn ogystal â'r cyllid cyfalaf a ddarperir o dan y cam gweithredu hwn, caiff cyllid ar gyfer gwelliannau mawr i'r rhwydwaith presennol a chynlluniau ffyrdd mawr, sy'n ychwanegu at y rhwydwaith, ei ddarparu fel rhan o'r cyllid cyfalaf o dan y Cam Gweithredu Buddsoddi mewn Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr, sy'n ymwneud â datblygu a darparu seilwaith ffyrdd.

Mae'r newid o £29.966m yn deillio o drosglwyddiad i mewn o £14.966m o'r BEL Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol a dyraniad ychwanegol o £15m i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ffyrdd.

Dros gyfnod y gyllideb, caiff cyllidebau cynnal a chadw eu monitro'n gyson i sicrhau ein bod yn ymateb i waith adweithiol ac yn blaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf lle mae eu hangen fwyaf.

## 7.2 Cam Gweithredu Buddsoddi mewn Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Hedfanaeth | 5,605 | 0 | 5,605 | 0 | 5,605 |
| Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 2,223 | (2,223) | 0 | 650 | 650 |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd Ategol | 0 | 0 | 0 | 850 | 850 |
| Trafnidiaeth Cymru | 171,250 | 0 | 171,250 | 14,150 | 185,400 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **179,078** | **(2,223)** | **176,855** | **15,650** | **192,505** |

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Hedfanaeth | 4,873 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 76,428 | 173,840 | (24,617) | 149,223 |
| Trafnidiaeth Cymru | 185,218 | 186,299 | 20,000 | 206,299 |
| **Is-gyfanswm** | **266,519** | **362,139** | **(4,617)** | **357,522** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | |
| Hedfanaeth | 1,200 | 0 | 4,800 | 4,800 |
| **Is-gyfanswm** | **1,200** | **0** | **4,800** | **4,800** |
| **CYFANSWM** | **267,719** | **362,139** | **183** | **362,322** |

Mae Trafnidiaeth Cymru yn darparu'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd a ategir gan gyllideb refeniw o £185.4m a chyllideb gyfalaf o £206.299m yn 2020-21. Cafwyd dyraniad refeniw ychwanegol o £15m er mwyn helpu i ddarparu'r fasnachfraint rheilffyrdd. Mae dyraniad cyfalaf o £20m hefyd i Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â Metro Gogledd Cymru. Mae mwy o wybodaeth am y Fasnachfraint Rheilffyrdd a Metro De Cymru ar gael yn adran 8.2 isod.

Mae'r gyllideb refeniw hefyd yn cynnwys darpariaeth o £5.6m ar gyfer gweithgareddau Hedfanaeth fel y Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru, ystyried llwybrau Rhwymedigaethau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSO) eraill posibl a rheoli a chynnal a chadw Sain Tathan a'r maes awyr.

Mae'r BEL Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cefnogi gweithgareddau cynllunio a dichonoldeb. Mae'r £2.223m a symudwyd i'r llinell sylfaen yn ymwneud â chyllid afreolaidd ar gyfer Trydedd Bont y Fenai. Mae dyraniad ychwanegol o £0.65m yn 2020-21 ar gyfer yr A465.

Trosglwyddwyd £24.617m allan o'r Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol er mwyn cadw tocynnau teithio rhatach (£9.651m) a rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ffyrdd (£14.966m).

Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn parhau i gynnwys cyllid Trafodiadau Ariannol sydd ar gael i gefnogi buddsoddiad yn y diwydiant hedfanaeth, ac mae £4.8m wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 2020-21. Caiff cyfleoedd eraill i ddefnyddio cyllid Trafodiadau Ariannol eu hystyried o hyd ynghyd â datrysiadau cyllido arloesol eraill.

## 7.3 Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Bysiau | 32,205 | (200) | 32,005 | 0 | 32,005 |
| Cardiau Clyfar | 966 | 0 | 966 | 500 | 1,466 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 23,482 | 0 | 23,482 | 0 | 23,482 |
| Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 630 | 0 | 630 | 0 | 630 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **59,283** | **(200)** | **59,083** | **500** | **59,583** |

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Cardiau Clyfar | 1,000 | 1,000 | 0 | 1,000 |
| Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 36,150 | 31,150 | 0 | 31,150 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 36,651 | 27,000 | 9,651 | 36,651 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 26,650 | 36,650 | 46,500 | 83,150 |
| **Is-gyfanswm** | **100,451** | **95,800** | **56,151** | **151,951** |
| ***Trafodiadau Ariannol*** | | | | |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 0 | 0 | 7,500 | 7,500 |
| **Is-gyfanswm** | **0** | **0** | **7,500** | **7,500** |
| **CYFANSWM** | **100,451** | **95,800** | **63,651** | **159,451** |

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi buddsoddiadau mewn trafnidiaeth integredig, teithio llesol, teithiau bws rhatach, cardiau clyfar a chynlluniau trafnidiaeth lleol a gynigir gan awdurdodau lleol.

Mae'r lleihad o £0.2m yn y llinell sylfaen ar gyfer Cymorth Bysiau yn ymwneud â chyllid afreolaidd i uwchraddio rhwydwaith Traws Cymru o fysiau i goetsys, a oedd yn rhan o'r cytundeb cyllideb dwy flynedd â Phlaid Cymru. Diben y symudiad o £0.5m o ran Cardiau Clyfar yw atgyfnerthu systemau tocynnau clyfar ar drafnidiaeth gyhoeddus, a oedd wedi'i gynnwys o dan Weithrediadau Seilwaith TGCh cyn hyn.

Mae'r dyraniad cyfalaf ychwanegol o £54m (£46.5m o gyfalaf craidd a £7.5m o gyfalaf Trafodiadau Ariannol) ar gyfer seilwaith Teithio Cynaliadwy a Llesol yn ymwneud â chydnerthedd ffyrdd (£25m) a helpu i brynu cerbydau allyriadau isel

(£29m).  Bydd y cyllid ychwanegol yn cefnogi gwelliannau i briffyrdd mewn mannau ar rwydweithiau bysiau craidd a phriffyrdd strategol sy'n wynebu perygl o lifogydd ac effeithiau eraill sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â thargedu seilwaith sy'n wynebu perygl yn sgil tywydd garw iawn. Er bod y gyllideb yn cael ei hadrodd yn erbyn y BEL Teithio Cynaliadwy a Llesol, byddwn yn mynd at ii ystyried lle mae'r gwariant hwn yn ffitio orau ar gyfer cyhoeddiadau'r gyllideb yn y dyfodol. Bydd y cyllid ar gyfer cerbydau allyriadau isel yn hyrwyddo'r newid i gerbydau allyriadau isel fel rhan o'n nod i sicrhau fflyd trafnidiaeth gyhoeddus nad yw'n cynhyrchu unrhyw allyriadau erbyn 2028.

Ceir rhagor o wybodaeth am Deithio Llesol yn adran 8.8 isod.

Mae'r symudiad o £9.651m mewn perthynas â thocynnau teithio rhatach yn deillio o ailflaenoriaethu cyllid o'r BEL Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol er mwyn cadw'r amlen tocynnau teithio rhatach.

Ynghyd â chyfraniadau'r Awdurdodau Lleol eu hunain at y cynllun tocynnau teithio rhatach, ystyrir bod yr amlen gyllido gyffredinol (refeniw a chyfalaf) yn ddigonol i fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdodau Lleol ar sail yr egwyddor 'dim gwell, dim gwaeth' a'r galw a ragwelir.

## 7.4 Cam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 4,764 | 0 | 4,764 | 0 | 4,764 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **4,764** | **0** | **4,764** | **0** | **4,764** |

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | 2020-21 Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2019-20 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 6,900 | 6,900 | 0 | 6,900 |
| **CYFANSWM** | **6,900** | **6,900** | **0** | **6,900** |

Mae'r cyllidebau diogelwch ar y ffyrdd wedi cael eu cadw ar y lefelau arfaethedig. Mae'r Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru yn nodi ein targedau diogelwch.

Mae cyllid refeniw yn ein helpu i gyllido partneriaid allanol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ac ymgysylltu â nhw er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd, gan ddefnyddio'r strwythurau llywodraethu diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r gyllideb gyfalaf yn cefnogi gwelliannau peirianneg i'r rhwydweithiau cefnffyrdd a ffyrdd lleol er mwyn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd.

## 8.0 TRAFNIDIAETH - POLISÏAU ALLWEDDOL

Darperir gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r ceisiadau penodol a wnaed gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

### 8.1 Brexit

Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i roi mesurau priodol ar waith i baratoi ar gyfer y canlyniadau sy'n gysylltiedig â gadael yr UE, gan gynnwys cynllunio ar gyfer yr effeithiau posibl y gallai gwiriadau tollau newydd yn ein porthladdoedd eu cael ar y rhwydwaith trafnidiaeth.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gael cyllid o'r Gronfa Argyfyngau Gweithredol er mwyn cydnabod yr effaith anghymesur y byddai gadael yr UE heb gytundeb yn ei chael ar Gymru. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd angen i ni wario mwy ar baratoi'r A55 a'r ffyrdd o amgylch Caergybi ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' a staffio unrhyw safleoedd a ddefnyddir i ddal traffig nad yw'n barod neu draffig sy'n wynebu oedi. Dyma'r drydedd waith i ni orfod paratoi ar gyfer ymadael â'r UE yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, mae'n amhosibl asesu hyd a lled y tarfu y byddai Brexit heb gytundeb yn ei achosi, a bydd angen i ni reoli unrhyw effeithiau drwy gydol 2020-21 os daw unrhyw effeithiau o'r fath i'r amlwg.

Mae wedi bod yn glir bob amser fod yn rhaid i Lywodraeth y DU gymryd cyfrifoldeb os yw'n barod i roi sêl bendith i'r camau trychinebus hyn, ac y dylai sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi'r trawsnewidiad y bydd angen i fusnesau a seilwaith Cymru ei wneud er mwyn addasu i adael yr UE heb gytundeb nac unrhyw gyfnod pontio chwaith.

Fel y cyhoeddwyd eisoes, bu'n rhaid gohirio gwaith ffordd arfaethedig ar yr A55 er mwyn lleihau unrhyw darfu ar y ffyrdd rhag ofn y bydd oedi a thryciau yn achosi traffig yng Nghaergybi. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio ailbroffilio'r gwaith hwn o fewn y flwyddyn ariannol, felly ni ddylai hyn gael effaith yn 2020/21. Fodd bynnag, os na fydd Llywodraeth newydd y DU yn cadarnhau na fydd yn gadael yr UE heb gytundeb ar 31 Ionawr, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i mi ailystyried, a fydd yn dechrau effeithio ar yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn cyllideb Rheoli'r Rhwydwaith ar gyfer 2020-21.

Os byddwn yn gadael yr UE heb gytundeb, bydd yn rhaid i ni ddibynnu ar warant Trysorlys y DU ar gyfer cyllid ERDF am weddill y rhaglen bresennol. Yn y dyfodol, bydd ein gallu i ddarparu buddsoddiad cyfatebol yn dibynnu ar gael cadarnhad y bydd Llywodraeth y DU yn cadw ei hymrwymiad i beidio â newid ei safbwynt ar ddatganoli ac na fydd Cymru geiniog yn dlotach ar ôl gadael yr UE.

### 8.2 Masnachfraint Rheilffyrdd a Metro De Cymru

Mae dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus yn hollbwysig er mwyn annog pobl i newid i ddulliau mwy cynaliadwy a chyflawni ein hamcanion o wella ansawdd aer a lleihau allyriadau carbon. Mae buddsoddi yn y rheilffyrdd yn flaenoriaeth yn y cynlluniau ac mae manylion y cyllidebau i'w gweld yn 7.2 uchod. Bydd ein ffordd o sicrhau newid cynyddol o gerbydau preifat i drafnidiaeth gyhoeddus yn chwarae rôl fawr wrth leihau effaith allyriadau sy'n cyfateb i nwyon tŷ gwydr a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru (a Trafnidiaeth Cymru) y contract i weithredu Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a chyflawni Metro De Cymru i Keolis Amey Wales Limited ar 14 Hydref 2018. Dros y 12 mis diwethaf, mae Keolis Amey Wales Limited (neu Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru fel y'i gelwir) wedi gwneud y canlynol:

- Creu dros 3,000 o docynnau newydd y gellir eu prynu ymlaen llaw, gan olygu bod teithio ar y rheilffyrdd yn rhatach nag erioed ar gyfer llawer o deithiau dros 50 milltir.

- Ailagor trac Halton Curve a lansio 215 o wasanaethau newydd yr wythnos, gan greu cyswllt rheilffordd rhwng Wrecsam a Lerpwl am y tro cyntaf ers 40 mlynedd a darparu gwasanaeth cyswllt bob awr rhwng Caer a Lerpwl. Bydd y gwelliant hwn mewn cysylltedd yn rhoi hwb economaidd enfawr i'r rhanbarth.

- Cyflwyno Ad-daliad am Oedi fel y gall cwsmeriaid rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau hawlio ad-daliadau am oedi o 15 munud yn unig, am y tro cyntaf erioed.

- Cyflwyno stoc dreigl ychwanegol ym mis Mai, gan gynnwys ailgyflwyno trenau Dosbarth 37 a gaiff eu tynnu gan locomotif i ddarparu capasiti ychwanegol ar Linell Rhymni. Mae disgwyl i drenau ychwanegol gyrraedd yn barod ar gyfer yr amserlen newydd a gaiff ei chyflwyno ym mis Rhagfyr, gan gynnwys 12 o drenau Dosbarth 170 modern.

- Lansio'r Weledigaeth ar gyfer Rheilffyrdd Cymunedol, a fydd yn cynnwys sefydlu Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau er mwyn hyrwyddo ac annog cymunedau i ddefnyddio'r rheilffyrdd. Yn ogystal, mae 22 o lysgenhadon cymunedol newydd yn cael eu creu.

- Creu mwy na 120 o swyddi newydd ers dechrau rhedeg y gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau yn 2018. Mae'r swyddi hyn yn amrywio o rolau peirianneg a dylunio i wasanaethau cwsmeriaid a rolau glanhau.

- Arwain y gwaith o gyflwyno Cerdyn Teithio Rhatach newydd er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

- Lansio ein Gweledigaeth ar Gyfer Gwella Gorsafoedd a dechrau'r broses o fuddsoddi ym mhob gorsaf ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau fel rhan o gronfa gwerth £194m. Mae hyn yn cynnwys darparu gwell gwybodaeth i deithwyr, arwyddion newydd, gwell cysgodfeydd ar blatfformau a gwell cyfleusterau i storio beiciau. Mae CCTV yn cael ei osod ym mhob gorsaf hefyd.

- Dechrau gweithio ar gamau cyntaf prosiect Metro De Cymru, gan gynnwys dechrau gweithio ar safleoedd y depo tramiau-trenau Metro newydd yn Ffynnon Taf a'r depo seilwaith newydd yn Nhrefforest.

## 8.3 Gogledd-ddwyrain Cymru

Mae Metro Gogledd Cymru yn flaenoriaeth a nodwyd yn Ffyniant i Bawb fel ffactor bwysig sy'n cyfrannu at ddarparu seilwaith modern a chysylltiedig. Cafodd y weledigaeth ar gyfer Metro Gogledd Cymru ei chyhoeddi yn 2017. Gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau allweddol eraill yn y rhanbarth

a thros y ffin, rydym bellach wedi dechrau cymryd camau i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Metro.

Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu £20m ar gyfer Metro Gogledd Cymru, fel y gellir parhau i fuddsoddi ym mhob math o drafnidiaeth i ddarparu'r system drafnidiaeth integredig, fodern o ansawdd uchel sydd ei hangen er mwyn cyflawni amcanion o ran cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd a sicrhau twf economaidd yn y rhanbarth, gan gysylltu pobl â swyddi a gwasanaethau a chysylltu busnesau â marchnadoedd.

## 8.4 Blaenoriaethau ar gyfer y Seilwaith Rheilffyrdd

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi cynlluniau i gynyddu capasiti ar gyfer hyd at 6,500 o gymudwyr ychwanegol yr wythnos ar y rheilffyrdd, o 15 Rhagfyr eleni, gan gyflwyno trenau ychwanegol ar draws rhwydwaith rheilffyrdd Cymru a'r Gororau i gyd.

Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 10% mewn capasiti ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Bydd hefyd yn arwain at fwy na 200 o wasanaethau ychwanegol ar y Sul yng Nghymru a'r Gororau, sy'n gynnydd o 45% o gymharu â'r gwasanaeth presennol a ddarperir ar y Sul.

Drwy ei menter 'First Fare', mae Trafnidiaeth Cymru wedi creu dros 3,000 o docynnau newydd y gellir eu prynu ymlaen llaw sy'n golygu bod teithio ar y rheilffyrdd yn rhatach nag erioed ar gyfer unrhyw deithiau dros 50 milltir.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi lansio 215 o wasanaethau newydd yr wythnos ac wedi ailagor trac Halton Curve i greu cyswllt rheilffordd rhwng Wrecsam a Lerpwl am y tro cyntaf ers 40 mlynedd, gan ddarparu gwasanaeth cyswllt bob awr rhwng Caer a Lerpwl. Mae hwn yn rhoi hwb economaidd enfawr i'r rhanbarth.

Yn ogystal, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyflwyno cyfres newydd o dargedau perfformiad a system lle y gall cwsmeriaid hawlio ad-daliad am oedi o 15 munud neu fwy a, thrwy ei 'Gweledigaeth ar gyfer Gwella Gorsafoedd', mae wedi cyhoeddi y bydd yn buddsoddi £194m mewn gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru a'r Gororau.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi creu 120 o swyddi ac wedi sefydlu Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau er mwyn hyrwyddo ac annog cymunedau i ddefnyddio’r rheilffyrdd.

Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn gwella'r profiad i deithwyr ar deithiau hir drwy gyflwyno cerbydau rhyng-ddinesig Marc 4 mwy hygyrch ar gyfer gwasanaethau penodol rhwng Gogledd Cymru a Manceinion a gwasanaeth ychwanegol a gaiff ei dynnu gan locomotif ar y llinell hollbwysig rhwng Caergybi a Chaerdydd sy'n cysylltu'r De a'r Gogledd. Rydym yn gwella'r profiad cyffredinol i deithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau rhwng Cheltenham a Maesteg a rhwng Caerdydd a Glynebwy, drwy gyflwyno stoc dreigl hygyrch sy'n fwy modern. Rwy'n falch hefyd y bydd profiadau teithwyr yn y Gogledd yn gwella o fis Rhagfyr wrth i gerbydau rhyng-ddinesig Marc 4 gael eu cyflwyno ar gyfer rhai gwasanaethau pell.

Ym mis Rhagfyr 2019, bydd mwy o drenau pedwar cerbyd yn gwasanaethu cledrau'r Cymoedd ar adegau brig, gan ddarparu lle ychwanegol i hyd at 6,500 o gymudwyr bob wythnos.

Bydd teithwyr rhwng Cheltenham a Maesteg a theithwyr rhwng Caerdydd a Glynebwy yn mwynhau trenau Dosbarth 170 modern sy'n cynnwys mwy o seddi, systemau gwybodaeth ar y trenau, toiledau hygyrch, systemau aerdymheru, Wi-Fi a phwyntiau trydan.

Bydd y rhai sy'n teithio pellter hir ar rai gwasanaethau rhwng y Gogledd a Manceinion yn teithio ar gerbydau 'rhyng-ddinesig Marc 4' mwy modern.

## 8.5 Trafnidiaeth Cymru

Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru yn 2015 o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac mae'n gwbl atebol i Weinidogion Cymru, fel is-gwmni cyfyngedig drwy warant sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

Mae gan Trafnidiaeth Cymru hunaniaeth gyfreithiol glir o fewn fframwaith cadarn a sefydledig. Mae rhaniad penodol rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, sy'n golygu y gall Trafnidiaeth Cymru wneud penderfyniadau gweithredol annibynnol.

Bydd yn atebol i Lywodraeth Cymru drwy gyfres o ysgogiadau strategol. Mae rhai elfennau, fel yr Erthyglau Cymdeithasu, yn ofynnol o dan y gyfraith; mae eraill yn helpu i lywio'r rhyngweithio rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn nodi'r cylch gwaith gweithredol a'r cyllid cronnol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i gyflawni'r cylch gwaith. Caiff cyllid ei dalu i Trafnidiaeth Cymru ar ffurf grantiau chwarterol ymlaen llaw. Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i ddwyn Trafnidiaeth Cymru i gyfrif.

Cylch gwaith y Cwmni yw rheoli gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a darparu systemau Metro Gogledd a De Cymru. Er mwyn trawsnewid Metro De Cymru, a fydd yn golygu gwasanaethau amlach, mae disgwyl i Gledrau Craidd y Cymoedd yn Ne Cymru gael eu trosglwyddo i berchenogaeth Trafnidiaeth Cymru cyn dechrau blwyddyn ariannol 2020-21. Bydd gweithgarwch gweithredol ychwanegol yn deillio o'r ffaith bod Trafnidiaeth Cymru wedi'i dynodi'n Berchennog Ased. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried a fydd amrywiaeth o weithgarwch sy'n gysylltiedig â theithio llesol, hedfanaeth a bysiau yn trosglwyddo i Trafnidiaeth Cymru o fis Ebrill 2020. Mae gwaith diwydrwydd dyladwy yn cael ei wneud mewn perthynas â hyn a bydd yn amodol ar achosion cyfiawnhad busnes unigol.

Dyhead Gweinidogion Cymru yw y gall Trafnidiaeth Cymru gyflawni ystod lawer ehangach o swyddogaethau ym maes trafnidiaeth. Yn ôl y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda thimau rhanbarthol newydd Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau trafnidiaeth rhanbarthol newydd a phartneriaid, i greu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig sy'n cwmpasu rhwydweithiau rheilffyrdd a bysiau.

## 8.6 Comisiwn Trafnidiaeth De Cymru

Cafodd datganiad ysgrifenedig ar Gomisiwn Trafnidiaeth De-Ddwyrain Cymru ei gyhoeddi ym mis Hydref. Cylch gwaith y Comisiwn yw ystyried yr ystod lawn o faterion sy'n ymwneud â thagfeydd ar yr M4 yn y De-Ddwyrain ac argymell ymyriadau i fynd i'r afael â nhw. Mae'r dull gweithredu i'w weld yma.

Y weledigaeth yw argymell cyfres o fesurau a fydd yn lleddfu tagfeydd mewn ffordd gynaliadwy sy'n cefnogi llesiant ehangach pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn yr ardal.

Mae'r Comisiwn yn anelu at gyhoeddi diweddariad ar gynnydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Rydym wedi datgan yn glir ein bod yn ymrwymedig o hyd i ddatrys y tagfeydd ar yr M4 yn y De-Ddwyrain.

## 8.7 Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd

**Seilwaith:**

Mae buddsoddiadau mewn prosiectau cefnffyrdd mawr yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yn cynnwys:

- Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd (A487): Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Chwefror 2019. Mae cynnydd da yn cael ei wneud.

- Trydedd Bont y Fenai (A55): Cyhoeddwyd yr Opsiwn a Ffefrir ym mis Hydref 2018.  Rydym wedi gwneud mwy o waith dylunio a delweddu mewn perthynas â'r math o bont y dylid ei hadeiladu ar gyfer y trydydd croesiad gan ymgynghori â Chomisiwn Dylunio Cymru, ac rydym wedi cwblhau astudiaeth lle ymchwiliodd y Grid Cenedlaethol i opsiynau rhagarweiniol i letya ceblau trawsyrru pŵer ar y trydydd Croesiad o Orsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd. Rydym wedi ymgynghori â chyflenwyr yn y diwydiant ar ddull caffael dewisol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cam cyflawni nesaf, ac rydym bellach yn bwrw ymlaen â'r broses o gaffael Asiant y Cyflogwr a Phensaer Pontydd Arbenigol er mwyn bwrw ymlaen â'r cynllun.

- Gwella'r A55 rhwng Aber a Thai'r Meibion: Cwblhawyd contract y gwaith galluogi yn ystod haf 2019. Mae disgwyl i'r prif waith adeiladu ddechrau yn ystod gwanwyn 2020.

- Gwelliannau i Gyffyrdd 15 ac 16 yr A55: Cyhoeddwyd yr Opsiynau a Ffefrir ym mis Ebrill 2019. Mae'r gwaith dylunio yn mynd rhagddo.

- Gwelliannau i Goridor yr A494/A55/A549 yn Sir y Fflint: Penodwyd y Cynghorwyr Technegol ym mis Gorffennaf 2019. Y cam nesaf yw penodi cyflenwyr i ddatblygu'r dyluniad mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

- Gwelliannau i Bont Afon Dyfrdwy ar yr A494: Cyhoeddwyd yr Opsiwn a Ffefrir ym mis Medi 2019. Disgwylir i'r Gorchmynion Drafft a'r Datganiad Amgylcheddol gael eu cyhoeddi ar ddechrau 2020.

- Cyffyrdd 3-6 yr A483: Astudiaeth i ystyried opsiynau i ddatrys y tagfeydd rhwng Cyffyrdd 3 a 6. Mae disgwyl i ymgynghoriad gael ei gynnal yng ngwanwyn 2020.

- A487 Pont Ddyfi Newydd: Mae disgwyl i'r Gweinidog benderfynu ar gynnydd y cynllun i'r cam adeiladu erbyn diwedd y flwyddyn.

**Rheoli'r Rhwydwaith:**

Mae asedau cefnffyrdd, priffyrdd a thraffyrdd yn rhan o'r ased unigol mwyaf ar fantolen Llywodraeth Cymru, a chânt eu harolygu, eu cynnal a'u cadw a'u gwella'n barhaus. Cafodd £152.6m ei ddyrannu at y diben hwn yn 2019-20.

Mae gwaith i dreialu a chyflwyno dulliau a deunyddiau arwynebu ffyrdd newydd yn mynd rhagddo a dylai'r gwaith hwn leihau costau oes hirdymor a sicrhau arbedion sylweddol drwy wneud y ffyrdd yn fwy gwydn. Bydd hefyd yn cyflwyno manteision o ran diogelwch a lefelau sŵn isel. Mae'r holl raglenni asedau cefnffyrdd a thraffyrdd yn annog arloesedd o ran dulliau adeiladu a defnyddio deunyddiau a chydrannau newydd.

Mae Astudiaethau Cyfarwyddyd Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ar goridorau pwysig ar draws y rhwydwaith wedi nodi piblinell o ymyriadau penodol hynod o gosteffeithiol i fynd i'r afael ag ardaloedd lle ceir problemau tagfeydd yn y Gogledd a'r De a chyfleoedd goddiweddyd diogel er mwyn gwella cysylltedd a chefnogi datblygiad economaidd yn y Canolbarth.

Bydd gwaith adeiladu ar y cyntaf o'r cynlluniau mannau cyfyng ar Gyffordd 48 yr M4 (Hendy) a chyffordd yr A470 â'r A55 yn dechrau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd gwaith adeiladu ar y cynlluniau cyfleoedd goddiweddyd cyntaf yn dechrau yn 2020-21 ar hyd coridorau'r A470 a'r A487.

Mae prosiect cydnerthedd yr A55 eisoes wedi sicrhau manteision cyflym a mesurau byrdymor sydd eu mawr angen, yn enwedig ym maes diogelwch, gan gynnwys camerâu cyflymder cyfartalog ar Allt Rhuallt. Mae mwy o fesurau tymor canolig a hirdymor yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a chânt eu rhoi ar waith o ddiwedd 2019-20 ymlaen.

Mae disgwyl i'r adolygiad diweddaraf o Derfynau Cyflymder a diogelwch y rhwydwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Yn seiliedig ar y canlyniadau, caiff rhaglen o welliannau wedi'u blaenoriaethu ei chyflawni o 2020-21 gyda'r nod o wella diogelwch yn ogystal â lleihau achosion lle y caiff cymunedau eu hollti a hyrwyddo teithio llesol.

## 8.8 Cyflawni'r Polisi Teithio Llesol

Ym mis Rhagfyr 2018, ar ôl i'r pedwar Map Rhwydwaith Integredig olaf gael eu cymeradwyo, cwblhawyd cylch gweithredu llawn cyntaf y Ddeddf Teithio Llesol. Bellach, mae cynlluniau cynhwysfawr ar waith i greu rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio, sy'n cysylltu'r mannau lle mae pobl yn byw â'r mannau y mae'n rhaid iddynt fynd iddynt a'r mannau y maent am fynd iddynt, ym mhob un o'r 142 o leoedd mwyaf yng Nghymru.

Roedd y Gronfa Teithio Llesol werth £60m, a sefydlwyd yn 2018 am gyfnod o dair blynedd yn wreiddiol, yn arwydd o fwriad y Llywodraeth i wireddu'r rhwydweithiau hyn, ac mae dros £40m ar gael ar gyfer gwelliannau teithio llesol eleni.

Yn 2020-21, mae'r Gronfa Teithio Llesol werth £30m, y £5m a ddyrannwyd i Lwybrau Diogel a'r cyllid newydd o £25m ar gyfer Cydnerthedd Ffyrdd yn dangos ein hymrwymiad i'r Cynllun Carbon Isel. Yn ogystal, mae tua £2m ar gael i gefnogi teithio llesol. Gan fod gwelliannau yn rhan o'n swyddogaeth priffyrdd ein hunain,

bydd hyn yn golygu y byddwn yn nesáu at y swm o £17-£20 y pen y flwyddyn, a argymhellwyd gan y pwyllgor hwn pan graffodd ar weithrediad y Ddeddf yn 2018.

Er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb cynlluniau, rydym wedi diweddaru ein Canllawiau Cyflawni a Dylunio a chânt eu cyhoeddi fel y gellir ymgynghori arnynt y gaeaf hwn. Rydym hefyd yn atgyfnerthu prosesau rheoli a gwneud cais am grantiau. Mae'r cynnydd sylweddol yn lefel y cyllid sydd ar gael a'r cyllid craidd a ddarparwyd ar gyfer gwaith dichonoldeb a dylunio eisoes wedi arwain at newid amlwg yn uchelgais awdurdodau lleol ledled Cymru, wrth i lawer ohonynt gynllunio a gweithredu cynlluniau mwy heriol. Gwahoddir cynigion ar gyfer cynlluniau a fydd yn dechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf ym mis Rhagfyr.

Rydym yn diweddaru'r meini prawf ar gyfer y Grant Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd sy'n werth £4m er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng diogelwch ar y ffyrdd a theithio llesol. Bydd disgwyl i gynlluniau roi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â chymunedau a gwella amodau cerdded a beicio, yn ogystal â lleihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd.

I ategu buddsoddiadau cyfalaf, ceir cyfres o weithgareddau sy'n anelu at hyrwyddo, hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o deithio llesol a chaiff y rhain eu cyllido drwy gyllidebau trafnidiaeth. Rydym yn aildendro ac yn rhoi hwb o fwy na 50% i'r gyllideb ar gyfer hyrwyddo teithio llesol mewn Ysgolion. Rydym yn cyllido Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol a Hyfforddiant Cerddwyr Ifanc ledled Cymru, sy'n costio tua £1.5m y flwyddyn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu fframwaith cyflawni cyson, gwell yn ystod 2020. Mae'r blynyddoedd cynnar, iechyd meddwl a datgarboneiddio yn flaenoriaethau trawsbynciol o fewn datblygiadau trafnidiaeth ac rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a chydweithwyr mewn sectorau eraill, yn enwedig Cynllunio, Iechyd, yr Amgylchedd ac Addysg, i sicrhau bod ein hymdrechion i gyflawni amcanion cyffredin wedi'u cysoni'n effeithiol.

## 8.9 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Trafnidiaeth Cymunedol a Bysiau, Tocynnau Teithio Rhatach a'r Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc

**Teithiau bws am ddim**

Mae cyllideb ddrafft 2020-21 yn cynnwys swm amodol o £60.133m er mwyn helpu awdurdodau lleol i ad-dalu cwmnïau bysiau am gludo deiliaid cardiau teithio hŷn neu anabl am ddim. Mae ein cynllun teithiau bws am ddim i bobl hŷn a phobl anabl yn sicrhau bod deiliaid cardiau yn gallu teithio i weld ffrindiau a pherthnasau, mynd i'r siop, mynd i apwyntiadau meddygol neu fynd am ddiwrnod allan heb boeni am y gost.

Ers i ni gyflwyno'r fenter allweddol hon yn 2002, mae wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae tua 730,000 o gardiau byw ar gael heddiw.

Rydym wrthi'n dosbarthu cardiau newydd yn lle cardiau dilys sydd eisoes wedi'u dyroddi, gan na fydd y rhain yn gweithio mwyach ar ôl diwedd mis Rhagfyr. Bydd y cardiau newydd hyn yn sicrhau y bydd deiliaid cardiau dilys yn parhau i allu teithio ar fysiau am ddim heb golli unrhyw un o'r manteision.

Caiff y gyllideb amodol ar gyfer 2020-21 ei dyrannu i awdurdodau lleol mewn ymateb i ddata a gesglir sy'n dangos nifer y teithiau am ddim a gaiff eu cwblhau. Ar

y cam hwn, credwn y bydd y gyllideb amodol yn ddigonol i ateb galw'r cynllun hwn sy'n seiliedig ar alw yn 2020-21.

Mae gan awdurdodau lleol rwymedigaeth statudol i ad-dalu cwmnïau bysiau er mwyn sicrhau nad yw'r cwmnïau hynny ar eu colled nac ar eu hennill. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid sylweddol i'w helpu i gyflawni'r rhwymedigaeth hon.

**FyNgherdynTeithio**

Mae cyllideb ddrafft 2020-21 ar gyfer FyNgherdynTeithio (MTP) yn cynnwys swm amodol o £2m i ddigolledu cwmnïau bysiau am gludo pobl ifanc 16 i 21 oed am ddisgownt o draean.

Mae tua 18,000 o gardiau MTP gweithredol mewn cylchrediad ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi cynllun MTP gan ei fod yn galluogi pobl ifanc i deithio ar fysiau am bris rhatach, yn ogystal ag annog pobl ifanc i roi cynnig ar ddefnyddio'r bws ar gyfer mwy o'u teithiau. Y gobaith yw y bydd hyn yn golygu y byddant yn parhau i ddefnyddio bysiau ar gyfer mwy o'u teithiau yn y dyfodol.

Rydym yn adolygu'r potensial i ymestyn cynllun MTP i grwpiau haeddiannol eraill ond mae'n rhaid cofio mai cynllun gwirfoddol yw hwn o hyd gan nad oes deddfwriaeth yn bodoli a fyddai'n ein galluogi i orfodi cwmnïau bysiau i gymryd rhan. Mae'n wir hefyd fod gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cyllid cyhoeddus ychwanegol yn heriol o hyd oherwydd effaith polisïau cyni Llywodraeth y DU.

**Cymorth i wasanaethau trafnidiaeth cymunedol a bysiau**

Mae cyllideb ddrafft 2020-21 yn cynnwys swm amodol o £25m ar ffurf ein cynllun Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau a gaiff ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla y cytunwyd arni â'r Gymdeithas Swyddogion Cydlynu Trafnidiaeth (awdurdodau lleol) er mwyn eu helpu i gefnogi'r rhwydweithiau bysiau craidd, strategol yn eu hardaloedd.

Mae gwasanaethau bysiau lleol yn chwarae rôl hollbwysig wrth alluogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau allweddol ledled Cymru, ac mae ein dyraniadau drwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn ffynhonnell ategol werthfawr o gyllid sy'n ychwanegol at y cyllid a ddyfernir i awdurdodau lleol drwy setliad blynyddol y Grant Cynnal Refeniw.

Mae'r cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer Traws Cymru a Traveline Cymru.

Mae bysiau yn dal i gludo dros deirgwaith nifer y teithiau a wneir gan deithwyr rheilffyrdd yng Nghymru, sy'n dangos pwysigrwydd ein rhwydwaith bysiau i fywydau beunyddiol pobl.

Rydym yn falch ein bod wedi gallu cadw'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau ar lefel o £25m y flwyddyn er gwaethaf rhaglen cyni Llywodraeth y DU.

Rydym yn gwerthfawrogi'r penderfyniadau anodd sy'n wynebu awdurdodau lleol o ganlyniad i raglen cyni Llywodraeth y DU. Serch hynny, rydym yn annog awdurdodau lleol i amddiffyn y dyfarniadau dangosol a gânt drwy'r Grant Cynnal

Refeniw er mwyn cefnogi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn eu hardaloedd.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadarnhau'r dyraniadau y maent wedi'u gwneud gan ddefnyddio dyfarniadau'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi'r rhwydwaith bysiau er mwyn helpu i lywio fy mhenderfyniadau yn y dyfodol am ddyrannu cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru.Disgwylir cyhoeddiad maes o law.

## 8.10 Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol

O dan y llinell yn y gyllideb ar gyfer blaenoriaethau trafnidiaeth lleol (Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy), mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol sy'n cefnogi'r economi, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn galluogi ac yn gwella dulliau teithio cynaliadwy a llesol.  Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau allweddol eraill i sicrhau bod y blaenoriaethau allweddol yn cael eu cyflawni a nodi ffynonellau addas eraill o gyllid a fydd yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys £31.15m ar gyfer y Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol. Bydd y cyllid hwn yn galluogi Awdurdodau Lleol i wneud cais am gyllid ar gyfer cynlluniau sy'n annog dulliau teithio cynaliadwy ac yn lleihau tagfeydd, yn enwedig ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus.

## 8.11 Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyhoeddwyd Strategaeth Drafnidiaeth ddiwethaf Cymru (Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl 2008) yn 2008 ac mae llawer wedi newid dros y degawd diwethaf, gan gynnwys datganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol; cyhoeddi deddfwriaeth sy'n gorgyffwrdd tra bod disgwyl y bydd mwy o newidiadau'n digwydd o ganlyniad i Ffyniant i Bawb a diwygiadau i Lywodraeth Leol; cyllid a chydberthnasau ar ôl Brexit; masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau; a datganoli mwy o gyfrifoldebau'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru sy'n cydnabod y newidiadau diweddar hyn ac yn ceisio mynd i'r afael â chyfleoedd a heriau'r dyfodol.

Caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith drwy gyfrwng Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Cenedlaethol a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol/Rhanbarthol.  Rydym hefyd yn bwriadu gwreiddio Trafnidiaeth Gynaliadwy ac yn cydnabod bod gan Gerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau rôl bwysig i'w chwarae wrth ddatgarboneiddio trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn brin.

## 8.12 Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol

Cafodd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n amlinellu'r buddsoddiad sylweddol y mae angen ei wneud i gyrraedd y targedau uchelgeisiol: y fasnachfraint rheilffyrdd gan gynnwys buddsoddiad gwerth bron £5bn dros y 15 mlynedd nesaf i drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd ledled Cymru, diwygiadau deddfwriaethol mawr i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a datblygu system drafnidiaeth aml-ddull, integredig ledled Cymru.  Mae'n nodi'n

fanylach sut rydym yn cynnig cyflawni'r canlyniadau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o 2015 ymlaen.

Mae'r Cynllun yn cynnwys pob ymyriad trafnidiaeth a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y Cynllun ei ddiweddaru yn 2017 ac yn 2018. Bydd Diweddariad 2019 yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud ers i'r Cynllun gael ei gyhoeddi ac yn darparu rhaglen ddiwygiedig, gan gynnwys:

- Amserlen ar gyfer cyllido a chyflawni'r cynlluniau sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru.
- Amcangyfrif o'r gwariant sydd ei angen i gyflawni'r cynlluniau.
- Ffynonellau tebygol o gyllid er mwyn gallu cyflawni'r cynlluniau.

Nid dogfen bolisi yw'r Cynllun hwn ac nid yw'n blaenoriaethu'r cynlluniau i'w cyflawni chwaith. Mae rhai o'n prosiectau yn cael eu cyflawni, mae rhai ar y cam adeiladu ac mae eraill yn cael eu datblygu.

## 8.13 Datgarboneiddio

Wrth baratoi ein cyllideb rydym yn canolbwyntio ar wyth maes â blaenoriaeth lle gallwn gael yr effaith fwyaf yn yr hirdymor. Mae hyn yn cynnwys ein blaenoriaeth datgarboneiddio.

Cyhoeddwyd Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel ym mis Mawrth ac mae'n cynnwys 100 o bolisïau a chynigion a fydd yn cyflwyno'r gyllideb garbon gyntaf ar gyfer 2016-2020 a tharged interim 2020. Bydd y polisïau hyn naill ai'n lleihau allyriadau neu'n helpu i drawsnewid i economi carbon isel a fydd yn ein galluogi i gyrraedd ein targedau deddfwriaethol a'n tywys ar y llwybr lleihau allyriadau. Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r Senedd gyntaf yn y byd i ddatgan bod argyfwng hinsawdd ac ar ôl gwneud hynny, rydym wedi derbyn cyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd i gynyddu targed lleihau allyriadau 2050 Cymru i 95% a byddwn yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu hyn y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein huchelgais i weithio gyda Phwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu targed sero-net mwy uchelgeisiol.

Bydd ein ffordd o sicrhau newid cynyddol o gerbydau preifat i drafnidiaeth gyhoeddus yn chwarae rôl fawr wrth leihau effaith allyriadau sy'n cyfateb i nwyon tŷ gwydr a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd targedau lleihau carbon uchelgeisiol yn helpu i wella ansawdd aer a bydd moderneiddio cyfleusterau mewn gorsafoedd yn annog pobl i ddewis dulliau teithio llesol.

Mae cyllid refeniw o £185.4m wedi cael ei ddarparu ar gyfer y fasnachfraint rheilffyrdd newydd a gwelliannau i wasanaethau yn 2020-21, gan gynnwys dyraniad ychwanegol o £15m fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon. Mae'r contract rheilffyrdd newydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i leihau lefelau carbon. Er mwyn cynnal amgylchedd naturiol trawiadol Cymru a datgarboneiddio ein gwasanaethau cyhoeddus yn gyflymach, bydd y gyllideb ar gyfer y fasnachfraint rheilffyrdd a gwelliannau i wasanaethau yn helpu i waredu'r holl drenau 'Pacer' diesel, hen a newydd, a ddefnyddir ar draws y fasnachfraint gyfan.

Rwyf wedi rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn gwasanaethau bysiau ac mae cynlluniau 2020-21 yn darparu £94m ar gyfer teithio ar fysiau (refeniw a chyfalaf) ar gyfer y grant cynnal gwasanaethau bysiau, tocynnau teithio rhatach a'r cynllun tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc. Ceir cyllid cyfalaf ychwanegol o £25m ar gyfer

Cydnerthedd Ffyrdd bydd yn cefnogi gwelliannau i briffyrdd mewn mannau ar rwydweithiau bysiau craidd a phriffyrdd strategol sy'n wynebu perygl o lifogydd ac effeithiau eraill sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal, bydd hefyd yn targedu'r seilwaith sy'n wynebu perygl yn sgil tywydd garw iawn. Er bod y gyllideb yn cael ei hadrodd yn erbyn y BEL Teithio Cynaliadwy a Llesol, byddwn yn mynd at ii ystyried lle mae'r gwariant hwn yn ffitio orau ar gyfer cyhoeddiadau'r gyllideb yn y dyfodol.

Byddwn yn buddsoddi yn y Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol ac yn ceisio mynd i'r afael â thagfeydd a gwella allyriadau cerbydau, yn ogystal ag ystyried cyfleoedd ym maes cerbydau trydan a thechnolegau eraill. Mae cyllid cyfalaf ychwanegol o £29m (£21.5m craidd a £7.5m Trafodiadau Ariannol) ar gael ar gyfer cerbydau allyriadau isel fel rhan o'n nod i sicrhau fflyd trafnidiaeth gyhoeddus nad yw'n cynhyrchu unrhyw allyriadau erbyn 2028.

Prif bileri'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yw Datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd, gan helpu i greu swyddi cynaliadwy â chyflog da ledled Cymru. Mae dyraniad ychwanegol o £25.862m, gan gynnwys £5m ar gyfer y Gronfa Ad-daladwy i BBaChau, wedi cael ei ddarparu i gyflwyno Cronfa Dyfodol yr Economi, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Rydym yn disgwyl i bob cais am gyllid gyd-fynd ag o leiaf un o'r "Meysydd Gweithredu", sy'n cynnwys un maes sy'n ymwneud â Datgarboneiddio.

Mae ein cynlluniau yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda busnesau i hyrwyddo datgarboneiddio a lleihau olion traed carbon. Mae cyllideb refeniw Busnes Cymru o £5.552m yn cefnogi arferion busnes cyfrifol ac yn rhoi cyngor ar effeithlonrwydd adnoddau i entrepreneuriaid a busnesau drwy Busnes Cymru, yn ogystal â chyngor ar gynllunio camau gweithredu amgylcheddol, gweithdai a gweithgareddau rhwydweithio. Mae braslyfr ac adnodd rhyngweithiol wedi cael eu datblygu i hyrwyddo'r agenda garbon ymhellach. Mae Busnes Cymru hefyd yn cefnogi'r Addewid Twf Gwyrdd sy'n galluogi busnesau i ddangos yr effaith gadarnhaol y maent yn ei chael ar y bobl a'r lleoedd o'u cwmpas ac ymuno â chymuned gynyddol o sefydliadau blaengar.

Mae'r gyllideb Datblygu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol o £6.798 yn helpu i ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r newid i economi carbon isel yn cyflwyno heriau a chyfleoedd unigryw o ran ynni adnewyddadwy. O ran y ffordd rydym yn cynhyrchu ynni, mae angen i ni sicrhau bod y seilwaith rydym yn buddsoddi ynddo yn helpu i gynhyrchu ynni carbon isel, yn gwella dulliau trawsyrru a dosbarthu ac yn sicrhau ein bod yn addas i'r dyfodol, gan gynnig technolegau a mesuryddion clyfar i ddarparu datrysiadau hyblyg.

Mae £14m ychwanegol hefyd wedi cael ei ddarparu i'r gronfa Datblygu Eiddo Masnachol. Bydd y cyllid ychwanegol yn adnewyddu'r stoc bresennol a fydd yn cael effaith gadarnhaol net ar fioamrywiaeth o gymharu ag adeiladu eiddo newydd cyfatebol ar dir sydd heb ei ddatblygu gan fod gwaith adeiladu o'r newydd, yn anochel, yn arwain at fesurau lliniaru ychwanegol i wrthbwyso unrhyw gynefinoedd y bu'n rhaid eu dinistrio wrth ddatblygu meysydd glas.

Yn ogystal, mae Cymoedd Technoleg yn anelu at ddiogelu'r economi at y dyfodol drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, drwy annog busnesau i fabwysiadu technolegau digidol sy'n cefnogi diwydiannau arloesol, gan gynnwys y sector modurol. Bydd y dyraniad o £10m yn 2020-21 yn

cyfrannu at waith datblygu economaidd rhanbarthol, gan greu diwydiannau'r dyfodol a ategir gan ysbryd y Contract Economaidd.

## 8.14 Gwariant Ataliol

Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r gwariant ar raglenni a pholisïau Trafnidiaeth i wariant ataliol fel a ganlyn: teithio llesol yn nhermau hyrwyddo mathau cynaliadwy o drafnidiaeth a thrwy hynny leihau'r effeithiau amgylcheddol a chynyddu lefelau gweithgarwch sy'n cefnogi canlyniadau iechyd. Mae tocynnau teithio rhatach ar fysiau yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig ac yn hollbwysig er mwyn sicrhau llesiant a chydlyniant cymdeithasol. Mae ein buddsoddiadau mewn diogelwch ar y ffyrdd, cynnal a chadw'r ffyrdd a gwelliannau i drefniadau rheoli'r rhwydwaith yn helpu i atal damweiniau a phroblemau mwy difrifol dros y tymor hwy. Un enghraifft bwysig o'r ffordd y caiff ein gwasanaethau trafnidiaeth eu trawsnewid yw Metro De Cymru, sydd â'r potensial i gynnig llawer mwy i ranbarthau na gwell rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y Metro, sy'n rhan annatod o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn ysgogi gwaith adfywio ehangach, gan helpu i lywio'r seilwaith economaidd a chymdeithasol rhanbarthol, symudedd cymdeithasol a chyfle cyfartal i rai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig. Er mwyn cyflawni canlyniadau gwell, mae mesurau gwariant ataliol, felly, yn bwysig yn yr hirdymor.

## 9.0 CYFLOGADWYEDD A SGILIAU - CYLLIDO'R CAMAU GWEITHREDU

| Sgiliau | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 165,915 | (3,150) | 162,765 | 10,776 | 173,541 |
| Heb Fod yn Arian Parod | 0 | 0 | 0 | 1,400 | 1,400 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **165,915** | **(3,150)** | **162,765** | **12,176** | **174,941** |

O gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, mae cynnydd o £10.776m yn y dyraniad Refeniw cyffredinol, gan gynnwys £9m ar gyfer prentisiaethau a £1.4m o ddibrisiant heb fod yn arian parod ar gyfer Gyrfa Cymru.

## 9.1 Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Seiliedig ar Waith | 88,033 | 0 | 88,033 | 9,000 | 97,033 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **88,033** | **0** | **88,033** | **9,000** | **97,033** |

Mae'r gyllideb net hon yn helpu i gyflwyno'r rhaglen prentisiaethau i gyflogwyr a'u cyflogeion, gan roi blaenoriaeth benodol i recriwtiaid newydd, ledled Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 10.1.

Bu dyraniad o £9m i gynnal y proffil gwariant rhwng cyllid yr UE a'n cyllid ni ein hunain er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i sicrhau o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oed dros dymor y Cynulliad hwn. Mae hyn yn golygu ein bod wedi buddsoddi mwy na £97m (Net) i gyd yn 2020-21.

## 9.2 Cymorth Cyflawni – Cam Gweithredu Sgiliau

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Marchnata | 648 | 0 | 648 | 0 | 648 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **648** | **0** | **648** | **0** | **648** |

Mae Is-adran Marchnata a Chyfathrebu SHELL yn datblygu negeseuon allweddol a deunydd cyfathrebu diddorol a gyflwynir drwy gyhoeddiadau a digwyddiadau proffil uchel, cyhoeddusrwydd i gerrig milltir pwysig ar y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol, ymgyrchoedd penodol proffil uchel a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## 9.3 Cam Gweithredu Polisïau Sgiliau

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Cyllideb Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu Polisïau Sgiliau | 1,556 | 0 | 1,556 | 0 | 1,556 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **1,556** | **0** | **1,556** | **0** | **1,556** |

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cyflawni rhaglenni Ymgysylltu â Chyflogwyr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Gweithredu Sgiliau.

## 9.4 Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogadwyedd a Sgiliau | 52,696 | (3,150) | 49,546 | 1,776 | 51,322 |
| Cymunedau am Waith | 3,972 | 0 | 3,972 | 0 | 3,972 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **56,668** | **(3,150)** | **53,518** | **1,776** | **55,294** |

Mae'r gyllideb Cyflogadwyedd a Sgiliau yn cyllido'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n helpu pobl i ddod o hyd i waith, dychwelyd i waith, parhau mewn gwaith a datblygu mewn gwaith drwy gymorth sgiliau a hyfforddiant. Mae hefyd yn hwyluso ymateb uniongyrchol er mwyn helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu datrysiadau ehangach a arweinir gan gyflogwyr ac sy'n seiliedig ar sectorau er mwyn ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd ym meysydd â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sy'n bwysig i economi Cymru.

Bu gostyngiad o £1.374m yn y Cam Gweithredu hwn o gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r symudiadau fel a ganlyn;

- Mae'r symudiad o £3.15m yn y llinell sylfaen yn ymwneud â chyllid Pontio afreolaidd gan yr UE ar gyfer Ford, Airbus a gweithgynhyrchwyr modurol sy'n rhanbarthol bwysig.

- Trosglwyddiad i mewn o'r MEG Addysg i dalu'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chyflenwi a rheoli'r system Rhifau Unigryw Dysgwyr yng Nghymru. Gwnaed hyn er mwyn cysoni cyllidebau ar ôl newidiadau i gyfrifoldebau'r portffolios.

- Dyraniad ychwanegol o £1.6m i Airbus a gweithgynhyrchwyr modurol sy'n rhanbarthol bwysig fel rhan o gyllid pontio dwy flynedd yr UE.

Mae cyllideb Rhaglen Cymunedau am Waith yn parhau ar £3.972m er mwyn mynd i'r afael â thlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy drwy ddarparu gwasanaethau mentora dwys a chyngor cyflogaeth arbenigol er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth; rhoi cymhelliant a hyder i unigolion ystyried cyfleoedd cyflogaeth; helpu unigolion i feithrin sgiliau meddal; helpu unigolion i feithrin sgiliau chwilio am swyddi a'u diweddaru; helpu unigolion i feithrin sgiliau galwedigaethol er mwyn eu helpu i ateb galw'r farchnad lafur; a darparu sesiynau a chymorth er mwyn helpu unigolion i wneud cais am swyddi gwag.

## 9.5 Cam Gweithredu Dewisiadau Addysg a Gyrfa

| BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £’000 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 £'000 | Newid £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | |
| Gyrfa Cymru | 19,010 | 0 | 19,010 | 0 | 19,010 |
| **Is-gyfanswm** | **19,010** | **0** | **19,010** | **0** | **19,010** |
| **Heb Fod yn Arian Parod** | | | | | |
| Gyrfa Cymru | 0 | 0 | 0 | 1,400 | 1,400 |
| **Is-gyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Refeniw** | **19,010** | **0** | **19,010** | **1,400** | **20,410** |

Mae'r gyllideb yn darparu cyllid ar gyfer Gyrfa Cymru (is-gwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru) sy'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd. Mae hwn yn wasanaeth cenedlaethol, diduedd a dwyieithog sydd ar gael i bobl o bob oed yng Nghymru.  Ni fu newid yn y gyllideb refeniw yng nghyllideb ddrafft 2020-21.  Mae'r newid o £1.4m yn y gyllideb heb fod yn arian parod yn ymwneud â dibrisiant ar gyfer Gyrfa Cymru.

## 10.0 SGILIAU - POLISÏAU ALLWEDDOL

Darperir gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r ceisiadau penodol a wnaed gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

## 10.1 Dysgu Seiliedig ar Waith

### Cyllid ar gyfer Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith

Mae manylion am Gam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith 2020-21 a sylwadau ar y cynnydd o gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf i'w gweld ym mharagraff 9.1 uchod.

### Cyllid ar gyfer Prentisiaethau Lefel Gradd

Trosglwyddwyd £5m i CCAUC yn flaenorol fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ddiwethaf. Rhagwelir y caiff (hyd at) £7m arall ei drosglwyddo i CCAUC er mwyn cefnogi Prentisiaethau Lefel Gradd sy'n parhau a rhai newydd yn ystod 2020-21.

### Rhagamcan o wariant 2020-21 ar y rhaglen prentisiaethau (gan gynnwys Cyllid Ewropeaidd)

Rhagwelir y caiff tua £115m ei wario ar y rhaglen prentisiaethau (gan gynnwys incwm ESF) yn ystod 2020-21.

| | 2020-21 £’000 |
|---|---|
| Dyraniad dangosol Cyllideb Ddrafft 2020-21 | 97,033 |
| Amcangyfrif o Dderbyniadau ESF ar gyfer y Rhaglen Prentisiaethau | 18,000 |
| **Cyfanswm y gwariant a ragwelir ar gyfer 2020-21** | **115,033** |

### Alldro 2018-19 ar gyfer Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith

Alldro 2018-19 ar gyfer Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith oedd £115.852m yn erbyn Ail Gyllideb Atodol o £115.709m. Dylid nodi bod yr alldro yn cynnwys gwariant ar hyfforddeiaethau yn y flwyddyn ariannol hon.

### Rhagamcan o alldro 2019-20 ar gyfer Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith

Ar hyn o bryd, rhagwelir alldro o £88.033m ar gyfer Cam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith 2019-20, yn erbyn Cyllideb Atodol Gyntaf o £88.033m.

### Camau gweithredu ac adnoddau i liniaru effaith Brexit heb gytundeb ar raglen prentisiaethau 2020-21

Byddwn yn ystyried ffyrdd o gefnogi prentisiaid sy'n colli eu swyddi o ganlyniad i Brexit heb gytundeb.

### Y galw am brentisiaethau a chyfyngiadau

Mae rheolaethau cytundebol ar waith i gyfyngu ar nifer y prentisiaid a gaiff eu recriwtio o fewn sectorau lefel 2 nad ydynt yn flaenoriaeth. Yn ogystal â hyn, mae darparwyr yn cael targedau cytundebol i gynyddu cyfran y prentisiaethau ar lefel 3 ac uwch. O flwyddyn 2019/20 y contract[1], rydym hefyd wedi diwygio'r rheolau cymhwysedd ar gyfer prentisiaethau er mwyn sicrhau na chaiff prentisiaid lefel 2 sydd wedi cael eu cyflogi yn eu swydd bresennol am 12 mis neu fwy eu recriwtio.

### Ymrwymiad cyllido ar gyfer holl brentisiaid 2020-21

Mae hyd rhaglen prentisiaethau yn amrywio o sector i sector. Gall rhai prentisiaethau gael eu cwblhau ymhen 12 mis ond gall rhai eraill bara hyd at 48 mis. Bydd prentisiaid 2020-21 yn cynnwys y rhai a gafodd eu recriwtio yn 2019-20 yn ogystal â'r rhai y gwnaethom eu recriwtio hyd at dair blynedd yn ôl. Mae'r ymrwymiad cyllido ar gyfer y cohort hwn yn debygol o ymestyn rhwng 2021-22 a 2023-24. Ceir amcangyfrif o'r ymrwymiad cyllido (gan gynnwys ESF) yn y tabl isod:

| Blwyddyn Ariannol | Amcangyfrif o gost Prentisiaid a oedd yn dysgu yn 2020-21 £m |
|---|---|
| 2021-22 | 70 |
| 2022-23 | 40 |
| 2023-24 | 15 |

## 10.2 Cymorth Gwaith Cymru a Cymru'n Gweithio

### Cyllid ar gyfer Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau

Ceir manylion am Gam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau 2020-21 ym mharagraff 9.4 uchod.

[1] Mae blwyddyn y contract yn rhedeg o fis Awst i fis Gorffennaf

## Alldro 2018-19 ar gyfer Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau

Yr alldro adnoddau cyllidol ar gyfer Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau yn 2018-19 oedd £32.92m.

## Rhaglen Cymru'n Gweithio/Porth Cyngor Cyflogaeth a Gyrfa Cymru

Rhoddwyd y gorau i'r cam caffael cychwynnol ar gyfer cymorth cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ar ddechrau 2019, am fod gennym bryderon am y dull gwerthuso. Fodd bynnag, mae cymorth cyflogadwyedd yn hanfodol mewn cyfnodau o ansicrwydd economaidd ac, felly, rydym wedi ymestyn darpariaeth rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru hyd at 31 Mawrth 2020 er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael. Y rhaglenni dan sylw yw ReAct, Twf Swyddi Cymru, Mynediad, Hyfforddeiaethau a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd.

Mae'r ymarfer caffael newydd ar gyfer ein rhaglen gyflogadwyedd newydd, Cymorth Gwaith Cymru, bellach yn fyw, a'r bwriad yw dyfarnu'r contractau yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Bydd y cam cyflawni yn dechrau ar 1 Ebrill 2020.

Bydd Cymorth Gwaith Cymru yn darparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau mewn ffordd newydd o fis Ebrill 2020, gan ddiwallu anghenion unigolion er mwyn eu helpu i gael swyddi beth bynnag fo'r rhwystrau sy'n eu hwynebu. Bydd Cymorth Gwaith Cymru yn disodli ein rhaglenni presennol gan gynnwys Twf Swyddi Cymru, ReAct, Hyfforddeiaethau, Mynediad a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, er mwyn symleiddio buddsoddiad ac ail-lunio cymorth cyflogadwyedd.

Rhagwelir cyllideb o £46m yn 2020-21, a ategir gan £21m o dderbyniadau ESF a fydd yn cefnogi tua 17,000 o bobl y flwyddyn.  Bydd Cymorth Gwaith Cymru i Oedolion yn cael tua £8.6m ac yn darparu gwasanaeth i tua 8,000 o gyfranogwyr, a bydd Cymorth Gwaith Cymru i Bobl Ifanc yn cael £37.8m gan gefnogi tua 9,000 o gyfranogwyr.

Mae Cymru'n Gweithio, a gafodd ei lansio ym mis Mai 2019, yn bwynt mynediad cenedlaethol i gymorth cyflogadwyedd. Caiff y cynllun ei weithredu gan Gyrfa Cymru fel gwasanaeth cyngor ac arweiniad cenedlaethol i bobl o bob oed, a bydd yn atgyfeirio unigolion yn uniongyrchol at Cymorth Gwaith Cymru (gan gynnwys y Llinyn Ymgysylltu ag Ieuenctid) pan gaiff ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020, ac yn eu cyfeirio at ddarpariaeth arall.

Mae Cymru'n Gweithio yn darparu un pwynt mynediad cenedlaethol, annibynnol i gymorth, ac mae cynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig yn sicrhau y caiff unigolion eu cyfeirio i'r lle cywir ar yr adeg gywir yn dibynnu ar eu hanghenion. Mae ymgyrch lansio a marchnata "newid dy stori" wedi cael ymateb da a derbyniodd Gyrfa Cymru dros 9,000 o ymholiadau yn ystod y ddau fis cyntaf ar ôl lansio gwasanaeth Cymru'n Gweithio.  Y dyraniad cyllidebol presennol ar gyfer 2020-21 yw £9.1m.  Bydd y swm hwn yn cefnogi tua 42,000 o unigolion bob blwyddyn.

## Llinyn Ymgysylltu ag Ieuenctid Cymru'n Gweithio

Bydd llinyn Ymgysylltu ag Ieuenctid Cymorth Gwaith Cymru yn cefnogi pobl ifanc sydd rhwng 16 a 18 oed pan fyddant yn dechrau'r rhaglen ac sydd wedi cael asesiad sy'n dangos eu bod yn wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog sy'n eu hatal rhag manteisio mewn ffordd gynaliadwy ar addysg bellach, cyflogaeth (gan gynnwys

Prentisiaeth) neu hyfforddiant. Bydd angen cymorth mwy dwys, unigoledig ac arbenigol ar unigolion i'w galluogi i wneud cynnydd a bod yn barod weithio.

Mae hyn yn ategu'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn y MEG Addysg sy'n dal y gyllideb ar gyfer y Grant Cymorth Ieuenctid. Y prif ffocws yw helpu pobl ifanc i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant drwy'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, yn cynnig ffordd systematig i awdurdodau lleol nodi'r rhai sydd angen cymorth, sefydlu'r cymorth sydd ar gael, ac olrhain cynnydd pobl ifanc wrth iddynt symud o addysg i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gall hyn gynnwys cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid neu atgyfeirio pobl ifanc atynt, gan gynnwys gwasanaeth Cymru'n Gweithio ac, o fis Ebrill 2020 ymlaen felly, Llinyn Ymgysylltu ag Ieuenctid Cymorth Gwaith Cymru.  Caiff y gweithgarwch hwn ei reoli gan Gydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu Awdurdodau Lleol, sy'n darparu arweinyddiaeth weithredol ac yn dwyn yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid, ysgolion a darparwyr addysg ôl-16 a hyfforddiant ynghyd.

Er mwyn sicrhau bod y Fframwaith yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol, mae Llywodraeth Cymru yn dechrau gweithio gyda'n partneriaid i'w ailwampio. Fel rhan o'r gwaith ailwampio, rhoddir ystyriaeth i ddatblygiadau polisi ers i'r Fframwaith gael ei gyhoeddi gyntaf, gan gynnwys Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd Cymru, Cymru'n Gweithio, a rhaglen Cymorth Gwaith Cymru a gaiff ei chyflwyno.  Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod gwariant o fewn llinyn Ymgysylltu ag Ieuenctid Cymorth Gwaith Cymru yn parhau i ategu gwariant y BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn y dyfodol.

Mae'r llinell Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid hefyd yn cynnwys £0.053m i gefnogi Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a Fforwm Services/ColegauCymru i roi cyngor a sylwadau ar faterion penodol sy'n ymwneud ag Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yr UE.

Mae FfCChC yn cefnogi nodau llesiant o ran ffyniant a chydraddoldeb; mae'n helpu i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig, ac mae'n helpu pobl i wireddu eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau.  Mae'n cydnabod cymwysterau ym mhob sector ac ar bob lefel o'r system addysg; mae'n rhoi'r un parch i gymwysterau ac mae'n helpu dysgwyr i weld llwybrau datblygu, yn enwedig os ydynt yn dilyn llwybrau anhraddodiadol, gan gynnwys y dysgwyr hynny a gaiff eu cefnogi drwy linyn ymgysylltu ag ieuenctid Cymorth Gwaith Cymru.

Mae Cymru'n Gweithio yn darparu gwasanaethau drwy nifer o systemau costeffeithiol.  Darperir gwasanaethau ar y stryd fawr, mewn cymunedau ledled Cymru, Sefydliadau Addysg Bellach a charchardai drwy ystod eang o ddulliau rhyngweithio, gan gynnwys gwe-sgyrsiau, Skype, e-bost, negeseuon testun ac, wrth gwrs, drwy gyfweliadau un i un traddodiadol.

Mae Cymorth Gwaith Cymru yn rhaglen newydd a gafodd ei chaffael mewn marchnad gystadleuol ac agored.  Mae sefydliadau wedi tendro ar sail costau sefydlog ond cânt eu hasesu ar sail yr elfennau ychwanegol y gall pob contractwr eu cynnig i'r rhaglen.  Roedd costau uned yn seiliedig ar waith ymchwil annibynnol gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith a gafodd ei gymhwyso wedyn at y trefniadau tendro.  Mae'r strwythur cyllido yn gysylltiedig â 'model talu yn ôl canlyniadau'.  O dan y model hwn, dim ond os bydd y darparwr yn cyflawni'r canlyniadau a nodir gan y

comisiynydd y caiff y taliad cyfan neu ran ohono ei wneud.  Mae darparwyr fwy neu lai yn rhydd i ddewis yr ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir yn y ffordd fwyaf costeffeithiol.

## 10.3 Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Ymgysylltu â Chyflogwyr

### Cyllid ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Rydym yn bwriadu rhoi grant o £0.495m i'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol drwy CLlLC ar gyfer 2020-21. Mae'r grant hwn yn amodol ar unrhyw newid sy'n codi o'r ymateb i'r Ymchwiliad i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r Ymchwiliad erbyn 28 Tachwedd 2019.

### Cyllid arall y bwriedir iddo helpu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i weithredu, ond na chaiff ei ddyrannu'n uniongyrchol iddynt

Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid arall i helpu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i weithredu.

### Manylion prosiectau a gweithgareddau a gyllidir o dan Gam Gweithredu Polisïau Sgiliau, yn enwedig gwariant sy'n ymwneud â'r Cynghorau Sgiliau Sector a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Nid oes unrhyw wariant arfaethedig o dan y BEL Ymgysylltu Polisïau Sgiliau mewn perthynas â'r Cynghorau Sgiliau Sector. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am y farchnad lafur a gyllidir o dan y BEL Ymgysylltu Polisïau Sgiliau yn rhoi gwybodaeth ar lefel sector (h.y. drwy'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr).

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad ariannol blynyddol o tua £0.365m i gynnal y system Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Caiff y cyllid hwn ei reoli drwy Skills Development Scotland. Rydym wedi symud oddi wrth roi cyllid uniongyrchol i Gynghorau Sgiliau Sector ar gyfer y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer (ond nid pob un) o'r 22 o gyflenwyr sy'n rhan o Gytundeb Fframwaith Aml-Gyflenwr y tair gwlad ar gyfer Safonau a Fframweithiau yn rhan o hen rwydweithiau'r Cynghorau Sgiliau Sector, fel Lantra a CITB. Nid oes unrhyw sicrwydd o ran cyllid i unrhyw gyflenwyr o dan y trefniant newydd.

## 10.4 Monitro Cyllidebau

### Cymru'n Gweithio

Mae prosesau rheoli grant cadarn ar waith gyda Gyrfa Cymru.  Mae cyllidebau ar gyfer Cymru'n Gweithio wedi'u neilltuo ac mae dyraniadau grant yn cydymffurfio â thelerau ac amodau Llywodraeth Cymru.   Caiff trefniadau grant eu rheoli a'u dogfennu'n systematig ac yn effeithlon er mwyn gwella perfformiad ariannol a gweithredol i'r eithaf a lleihau risg.

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi comisiynu gwerthusiad hydredol ffurfiol o Cymru'n Gweithio sy'n gysylltiedig â gwerthusiad ehangach o effaith Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.   Bydd y gwerthusiad yn ystyried nodau polisïau ac yn asesu a gafodd canlyniadau'r rhaglen gyllido eu cyflawni ac a yw'n cynnig gwerth am arian.  Ychwanegedd – yr elfennau hynny o'r rhaglen sy'n cynnig gwerth ychwanegol.

**Cymorth Gwaith Cymru**

Mae rhaglenni meddalwedd newydd wedi cael eu datblygu i sicrhau bod gwiriadau a gwrthbwysau perthnasol o fewn y system, ac mae system reoli a chydymffurfio berthnasol ar waith i sicrhau mai dim ond hawliadau cymwys a gaiff eu gwneud. Mae swyddogaethau sicrwydd archwilio allanol ychwanegol wedi cael eu hychwanegu at y system hefyd. Mae prosesau rheoli contract cadarn ar waith sy'n cydymffurfio â thelerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi comisiynu gwerthusiad hydredol ffurfiol o Cymorth Gwaith Cymru. Bydd y gwerthusiad yn ystyried nodau polisïau ac yn asesu a gafodd canlyniadau'r rhaglen gyllido eu cyflawni ac a yw'n cynnig gwerth am arian. Ychwanegedd – yr elfennau hynny o'r rhaglen sy'n cynnig gwerth ychwanegol.

**Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**

Mae gan Lywodraeth Cymru broses ar waith i fonitro'r Dyfarniad Grant i CLlLC. Caiff arian ei dalu ar ffurf ôl-daliadau bob pedwar mis ar ôl i dargedau ac allbynnau gael eu cwblhau. Mae system ar waith i adolygu a gwirio pob gweithgarwch cyn y caiff unrhyw daliad ei wneud.

## 10.5 Brexit

Rydym wedi ystyried yn ofalus yr effaith y gallai gadael yr UE heb gytundeb ei chael ar yr economi. Rydym eisoes yn helpu unigolion sy'n wynebu colli eu swyddi am fod busnesau'n adleoli i rannau eraill o'r UE ac mae angen i ni ragweld ac ymateb i nifer cynyddol o bobl a allai wynebu risg. Mae union effaith Brexit heb gytundeb yn ansicr o hyd ond mae gennym systemau cadarn ar waith i allu ymateb a chynllunio'n rhagweithiol i'r dyfodol, gan addasu ein hymateb ar sail y senario Brexit a fydd yn ein hwynebu.

Mae ein rhaglenni presennol yn rhoi cymorth sydd wedi'i dargedu at ddatblygu a thyfu economi Cymru a gallant hefyd helpu'r rhai mewn argyfwng, fel busnesau a allai orfod cau ac unigolion a allai golli eu swyddi. Byddwn yn parhau i fonitro'r rhaglenni hyn ac asesu a allai unrhyw rannau o'r cyllidebau hyn wynebu pwysau ariannol ychwanegol o ganlyniad i Brexit heb gytundeb.

Hefyd, rydym yn darparu'r cymorth canlynol mewn perthynas â'r economi a sgiliau:

- Cyngor a chymorth i fusnesau – mae Porth Brexit Busnes Cymru a'r Porth Sgiliau i Fusnesau yn cynghori busnesau Cymru ar sut i baratoi ar gyfer Brexit.

- Cymorth ariannol er mwyn helpu busnesau i baratoi – £9.2m er mwyn helpu busnesau i ddatblygu cydnerthedd cyn Brexit.

- Cyllid ychwanegol i fusnesau – £121m ychwanegol er mwyn helpu busnesau o bob maint i ddatblygu a buddsoddi ar gyfer y dyfodol wrth iddynt ymdopi â heriau Brexit.

- Cefnogi'r diwydiannau ceir a hedfanaeth – £6m o gyllid i hyfforddi ac uwchsgilio'r gweithlu yn sectorau modurol a hedfanaeth Cymru.

## 11.0 Y SAIL DYSTIOLAETH AR GYFER PENDERFYNIADAU'R GYLLIDEB

Mae ein penderfyniadau ariannol yn seiliedig ar dystiolaeth o ystod eang o ffynonellau megis gwaith ymchwil cyhoeddedig, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwerthusiadau polisi blaenorol ac ystadegau.

Fel Llywodraeth, rydym wedi helpu i sefydlu sefydliadau er mwyn helpu i ddatblygu'r dystiolaeth rydym yn ei defnyddio i lywio ein gweithgareddau. Er enghraifft, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, a gyllidwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru ac sy'n aelod o Rwydwaith 'What Works' y DU. Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i roi tystiolaeth o ansawdd a chyngor annibynnol i Weinidogion Cymru a swyddogion, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisïau. Mae'r Ganolfan a'i rhagflaenydd, y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, wedi cyhoeddi sawl adroddiad sy'n gysylltiedig â'r portffolio Economi a Thrafnidiaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom sefydlu Dirnad Economi Cymru. Prosiect ar y cyd yw hwn rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, a fydd yn adnodd unigryw i Gymru. Bydd Dirnad Economi Cymru yn rhoi sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi, gan alluogi Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru i herio ac addasu'r cymorth a gynigir i BBaChau yng Nghymru.

Caiff y dystiolaeth a hyd a lled y gwaith arfarnu a wneir wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni eu hasesu ar sail risg, maint a graddfa, y sail dystiolaeth bresennol a ffactorau eraill.  Cynhelir astudiaethau dichonoldeb cyn dechrau prosiectau allweddol er mwyn asesu pa mor addas ydynt i gyflawni ein nodau, a chaiff adolygiadau 'Gateway' eu cwblhau ar gyfer prosiectau mawr er mwyn herio pob agwedd ar achos busnes, gan gynnwys yr asesiad sylfaenol o werth am arian. Er bod yr adolygiadau yn ymwneud â phrosiectau penodol, maent yn helpu i greu ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i'w defnyddio wrth ystyried prosiectau eraill. Yn yr un modd, gall adroddiadau archwilio mewnol ac allanol fod yn ddefnyddiol hefyd.

Rydym yn cyllido Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, drwy broses dendro gystadleuol, i ddarparu gwasanaethau ymgysylltu rhwng Partneriaid Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff safbwyntiau rhai o'n rhanddeiliaid allweddol eu hymgorffori wrth ddatblygu polisïau a'u rhoi ar waith.

Rydym wedi symleiddio'r seilwaith cynghori, gan ddiddymu ystod o gyrff cynghori a sefydlu Bwrdd Cynghori Gweinidogol yr Economi a Thrafnidiaeth yn eu lle sy'n rhoi cyngor rheolaidd, creadigol o ansawdd uchel i mi er mwyn helpu i wella datblygiad economaidd yng Nghymru yn unol â'r blaenoriaethau a'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

O safbwynt trafnidiaeth, rydym yn cyllido Bus Users Cymru i gynrychioli buddiannau teithwyr a chyfrannu at waith datblygu polisïau. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ymgyngoriadau ar bolisïau, monitro gwasanaethau bysiau, ymdrin â chwynion a chynnal cymhorthfeydd bysiau ledled Cymru.

## 12.0 MONITRO CYLLIDEBAU

Mae prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y cyllidebau y pleidleiswyd arnynt yn ystod y flwyddyn i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn cael eu rheoli mewn ffordd fanwl ac effeithiol. Mae elfen bwysig o'r gweithgarwch arfaethedig yn y MEG yn seiliedig ar alw, megis Cronfa Dyfodol yr Economi ac, fel arfer, yn brosiectau seilwaith mawr a gaiff eu cyflawni gan gontractwyr trydydd parti. O ganlyniad, gall ffactorau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, fel tywydd garw, effeithio ar wariant. Caiff cynlluniau eu monitro'n agos gan y tîm uwch-reolwyr er mwyn cytuno ar opsiynau a chynigion ar gyfer camau gweithredu cywirol er mwyn rheoli gwariant net ar lefelau'r gyllideb.

Cynhelir adolygiadau her cadarn yng nghanol y flwyddyn er mwyn nodi unrhyw broblemau sylweddol a llywio opsiynau i'w hystyried gan y Cyfarwyddwyr, y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a chaiff yr adnoddau sydd ar gael eu hailflaenoriaethu er mwyn gallu ymateb o hyd i ddatblygiadau economaidd.

## 13.0 GWERTHUSIADAU/ADOLYGIADAU

Caiff canlyniadau pob un o'r prosiectau a'r contractau a reolir o fewn y portffolio eu monitro. Cynhelir astudiaethau dichonoldeb cyn dechrau prosiectau allweddol er mwyn asesu a fyddant yn addas yn y dyfodol er mwyn cyflawni ein nodau llesiant. Caiff prosiectau a rhaglenni eu gwerthuso yn ystod ac ar ddiwedd prosiectau a gall y gwerthusiadau gael eu cynnal yn fewnol neu gan gontractwyr allanol.

Gellir ystyried yr angen am werthusiad a chwmpas y gwerthusiad fesul achos wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni gan ystyried y risg, maint a graddfa, y sail dystiolaeth bresennol a ffactorau eraill.

Mae comisiynu gwerthusiadau a gwaith ymchwil yn un ffordd o gasglu tystiolaeth am bolisïau a rhaglenni, ond nid dyma'r unig ffordd o wneud hynny ac nid dyma'r ffordd fwyaf priodol o wneud hynny bob amser.

Cynhelir adolygiadau 'Gateway' ar gyfer prosiectau mawr er mwyn asesu gwerth am arian a chaiff archwiliadau mewnol ac allanol eu cynnal hefyd a fydd yn darparu mwy o dystiolaeth i gefnogi canlyniadau polisïau.

Weithiau, defnyddir y sail dystiolaeth bresennol i lywio rhaglenni a pholisïau ac nid oes bob amser angen cynhyrchu tystiolaeth newydd, na dadl gwerth am arian dda dros wneud hynny. Mae sefydliadau fel y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus a'r What Works Centre for Local Growth wedi llunio adroddiadau sy'n dadansoddi pa bolisïau sy'n cefnogi ac yn cynyddu twf economaidd lleol yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn yr un modd, mae'r OECD wedi cynnal adolygiad o bolisïau datblygu cyflogaeth a datblygu economaidd lleol yng ngwledydd yr OECD ac wedi ystyried sut y gallai'r rhain gael eu rhoi ar waith yng Nghymru.

Wrth i ni ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'i roi ar waith, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. Ar y cam cyflawni cyntaf, mae rhanddeiliaid wedi ein helpu i lywio gweithrediad y Contract Economaidd.

Er mwyn gallu parhau i ymateb i anghenion y gymuned fusnes, rydym yn cynnal gwerthusiadau fesul cam o wasanaethau Busnes Cymru, ar y dechrau hyd at y gwerthusiad terfynol. Defnyddir y canfyddiadau i fireinio'r hyn a ddarperir a helpu i lywio penderfyniadau ynghylch polisïau yn y dyfodol.

O safbwynt trafnidiaeth, rydym yn darparu cyllid er mwyn i Bus Users Cymru ar y cyd â Transport Focus gynnal arolygon blynyddol o deithwyr bysiau, a phobl nad ydynt yn defnyddio bysiau, er mwyn nodi'r agweddau da ar y rhwydwaith a'r agweddau y mae angen eu gwella. Diben y gwaith hwn yw cadarnhau pa fuddsoddiadau sydd eu hangen er mwyn denu mwy o yrwyr a theithwyr ceir i ddefnyddio bysiau, yn enwedig teithwyr sy'n talu ac yn enwedig ar oriau cymudo brig.

Rydym yn monitro data ar ddamweiniau'n fanwl ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio data a'u dadansoddi'n well er mwyn targedu ymyriadau yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn ddiweddar, gwnaethom gomisiynu adolygiadau o ymyriadau allweddol a gyllidir gennym a thynhau'r rheolau ynghylch pa gynlluniau sy'n gymwys i gael cyllid.

## 14.0 DEDDFWRIAETH

Mae datganiad ysgrifenedig diweddar yn rhoi Y Diweddaraf ynghylch y Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) a'r Agenda ar gyfer Diwygio Gwasanaethau Bysiau yn Ehangach. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer gwell gwaith partneriaeth, sef Cynlluniau Partneriaeth Cymru; masnachfreinio; a gwasanaethau bysiau a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol. Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer rhannu a rheoli gwybodaeth, fel y bydd gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd mewn ffordd fwy hygyrch a dibynadwy, a bydd awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i wneud trefniadau er mwyn mynd i'r afael â newidiadau i wasanaethau.

Bwriad y darpariaethau galluogol hyn yw sicrhau bod gan awdurdodau lleol gyfres gynhwysfawr o adnoddau i'w defnyddio wrth geisio ymdrin â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau bysiau yn eu hardal, a'u bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu rhwydwaith bysiau hygyrch, fforddiadwy ac integredig sy'n diwallu anghenion cymunedau Cymru. Bydd y darpariaethau galluogol yn ddarostyngedig i brosesau priodol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynigion neu gynlluniau a ddatblygir o dan y darpariaethau yn gadarn ac yn deg.

Bydd yn rhaid i Gynlluniau Partneriaeth Cymru helpu i roi polisïau trafnidiaeth lleol ar waith, cael eu datblygu mewn partneriaeth â chwmnïau bysiau a bod yn destun proses ymgynghori ystyrlon. Er mwyn sicrhau cydbwysedd yn y bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau, y bwriad yw y bydd gan Gynlluniau Partneriaeth Cymru ddarpariaethau gwrthwynebu ffurfiol ac y byddant yn ddarostyngedig i brofion cystadleuaeth priodol.

Er mwyn sicrhau bod cynigion masnachfreinio newydd yn gadarn, bydd y newidiadau deddfwriaethol yn nodi'r gofynion y bydd yn rhaid eu hystyried ym mhob cynnig masnachfreinio newydd a bydd Gweinidogion Cymru yn darparu canllaw ar arferion gorau. Y bwriad yw bod yn rhaid i bob cynnig masnachfreinio gael ei ystyried yn drylwyr drwy gyfrwng achos busnes manwl, a gaiff ei archwilio, gydag ymgynghoriad ffurfiol i ddilyn. Dim ond ar ôl gwneud hyn y gellir penderfynu masnachfreinio.

Ar gyfer gwasanaethau bysiau a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol, byddai angen i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rheolau o ran cymorth gwladwriaethol a chystadleuaeth, a phe bai awdurdod lleol yn penderfynu rhedeg

gwasanaethau, byddai'r gwasanaethau hynny'n ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau cystadleuol a gofynion cofrestru ag unrhyw gwmni arall.

## 15.0 LLEIHAU EFFAITH AMDDIFADEDD A THLODI

Mae 'Tlodi' wedi cael ei gynnwys fel blaenoriaeth drawsbynciol newydd ar gyfer y broses o gynllunio cyllideb 2020-21. Cafodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ei benodi i weithio fel eiriolwr dros dlodi er mwyn sicrhau bod pwyslais yn cael ei roi ar wella canlyniadau i aelwydydd incwm isel.

Rydym hefyd yn adolygu ein dull o fynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldeb.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn cynnal adolygiad o raglenni cyllido er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar fywydau plant sy'n byw mewn tlodi. Caiff yr adroddiad ar yr adolygiad hwn ei gyflwyno i Weinidogion ym mis Mawrth 2020, a chaiff rhaglen o weithgarwch ei rhoi ar waith fis Ebrill nesaf yn seiliedig ar gasgliadau ac argymhellion yr Adolygiad.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion ystod o sefydliadau fel y Comisiwn Gwaith Teg, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r OECD. Bydd hyn yn helpu i lywio ein dull gweithredu i ledaenu ffyniant a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd.

Rydym hefyd o blaid sicrhau 'cyflog cymdeithasol' mwy hael – gwasanaethau sy'n cyfateb i arian parod, sy'n gadael arian ym mhocedi pobl Cymru. Gall hyn olygu y bydd rhai teuluoedd yng Nghymru yn llawer gwell eu byd nag y byddent fel arall.

Er enghraifft, rydym wedi darparu £2m arall i gefnogi'r Cynllun Teithio Rhatach i Bobl Ifanc. Rydym wedi cynnwys darpariaeth o £60m i barhau â'n Cynllun Teithiau Rhatach ar Fysiau, gan fod mwy na 750,000 o ddeiliaid cardiau teithio yn byw yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod teithio ar fysiau yn fwy fforddiadwy i bobl ifanc ac am ddim i bobl hŷn fel y gallant fynd i'r gwaith, addysg, digwyddiadau cymdeithasol, hyfforddiant, apwyntiadau meddygol a theithio at unrhyw ddibenion eraill.

Mae trafnidiaeth yn chwarae rôl hollbwysig wrth hyrwyddo cystadleurwydd economaidd Cymru, gan gysylltu pobl, cymunedau a busnesau â swyddi, cyfleusterau a marchnadoedd. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu system drafnidiaeth integredig, amlfoddol a chynaliadwy sy'n galluogi ein cymunedau i fod yn unedig ac i ffynnu, gan sicrhau y gall pawb fanteisio ar y cyfleoedd a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iach, cynaliadwy a boddhaus.

Yn unol ag amcanion ein Strategaeth Tlodi Plant, rydym yn canolbwyntio ar godi lefelau sgiliau, gan sicrhau cyflogaeth gynaliadwy a lledaenu buddiannau twf economaidd mor eang â phosibl.

Cydnabyddir bod cyfranogiad yn y farchnad lafur yn ffactor allweddol sy'n hyrwyddo symudiadau i mewn ac allan o dlodi. Mae dros hanner y bobl sy'n mynd i mewn i dlodi yn gwneud hynny yn sgil lleihad mewn enillion, yn bennaf o ganlyniad i golli eu swyddi. Gwyddom fod aelwydydd heb waith yn wynebu mwy o risg o dlodi ac yn enwedig risg o fyw mewn tlodi parhaus. Mae bod yn ddi-waith yn cael effaith andwyol ar lesiant meddwl a chorfforol.

Mae pobl Cymru yn ffocws canolog i'r ymyriadau a geir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Mae'r Cynllun yn nodi nifer o newidiadau allweddol i'n dull o ddatblygu'r

economi, ac mae gan bob un ohonynt y potensial i gefnogi ffyniant i bawb a thwf cynhwysol.

Y Contract Economaidd yw canolbwynt ein dull gweithredu newydd ac mae'n llywio'r gydberthynas ddwyochrog rhwng y Llywodraeth a busnesau er mwyn hyrwyddo buddsoddiad cyhoeddus sydd â diben cymdeithasol. Rydym yn cymhwyso'r Contract Economaidd at ein cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau ac yn ystyried ymestyn y contract i gynnwys ein cynnig ehangach i fusnesau a sicrhau bod gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru yn mabwysiadu'r egwyddorion hyn. Mae'r Contract Economaidd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n ceisio buddsoddiad ddangos eu bod yn hyrwyddo gwaith teg ac iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle, ymhlith pethau eraill.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon